

Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2013 a Rhaglen Waith ar gyfer 2014

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno un o ymrwymïadau Strategaeth yr UE Llywodraeth Cymru, Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (2012), i lunio Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau a chynnydd ynghyd â Rhaglen Waith flynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'n rhoi gwybodaeth am yr ymrwymïadau unigol o dan amcanion amrywiol y Strategaeth ac yn amlinellu ymagwedd Llywodraeth Cymru at yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn dangos sut mae nodau'r UE, a ddisgrifir yn ei Strategaeth ei hun, sef Ewrop 2020, yn ategu ein Rhaglen Lywodraethu ac yn nodi cyfres o amcanion i Lywodraeth Cymru ar gydb berthnasau â'r UE, meysydd polisi a hyrwyddo ymgysylltiad. Mae hefyd yn amlinellu sut rydym yn ceisio dylanwadu ar brosesau llunio polisiâu'r UE.

Daeth cylch cyllidebol saith mlynedd yr UE, a'r rhan fwyaf o'r gwaith ar y ddeddfwriaeth gysylltiedig, i ben yn 2013 gan ei gwneud yn flwyddyn hynod o brysur o ran gwaith polisi a deddfwriaeth. Mae hyn yn cyferbynnu â'r cylch gwleidyddol pum mlynedd, a ddaw i benllanw yn 2014 gyda'r etholiadau i Senedd Ewrop ym mis Mai a phenodiad grŵp, neu Goleg, newydd o Gomisiynwyr ym mis Tachwedd neu wedi hynny.

Lluniwyd fersiwn derfynol y ddogfen hon ym mis Mawrth 2014 er mwyn gallu ystyried rhestr flaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer ymgysylltu ynglŷn â pholisi a deddfwriaeth yr UE, a luniwyd ym mis Chwefror.

Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ei chydb berthnasau â'r UE

Hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r cynigion hynny gan yr UE sydd o bwys i Gymru ac yn gweithio i hyrwyddo a diogelu ein buddiannau.

Mae hon yn rhwymedigaeth gyffredinol a gyflawnwyd fel y nodir yn yr ymrwymïadau unigol isod.

Y Farchnad Sengl: Masnach a Buddsoddi

Mae ysgogi allforion a denu mewnfuddsoddiad yn ganolog i'n strategaeth ar gyfer twf ac adnewyddu'r economi. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Farchnad

Sengl a bydd yn gweithio gydag eraill i sicrhau chwarae teg ac amgylchedd busnes dynamig ledled yr UE..

Adroddiad Blynyddol 2013

Marchnad Sengl yr UE oedd ein partner masnachu mwyaf o hyd, er gwaethaf yr anawsterau yn ardal yr Ewro, ac erys yn ffynhonnell bwysig o gyfleoedd busnes i gwmnïau yng Nghymru yn ogystal ag elfen hanfodol wrth ddenu buddsoddiad i Gymru o rannau eraill o'r byd.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o gefnogi'r Farchnad Sengl, yn bennaf am y bydd yn chwarae rhan hollbwysig wrth greu swyddi ac annog twf yng Nghymru a'r UE yn ehangach. Yn 2013, gwnaethom barhau i ganolbwyntio mwy ar ysgogi allforion a denu mewnfuddsoddiad ac, yn sgil y ffocws ar y Farchnad Sengl, recriwtiwyd dau swyddog masnach a buddsoddi i weithio yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith hwn ar draws y cyfandir.

Penodwyd y swyddogion ym mis Medi 2013 ac maent wedi ymgysylltu â busnesau Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â chryfderau sectorau allweddol yng Nghymru er mwyn datblygu llif o ymholiadau ynglŷn â mewnfuddsoddi.

Llwyddwyd i feithrin cydberthnasau cryf â grwpiau llusosi allweddol yn y rhanbarth, yn enwedig siambrau masnach a swyddfeydd Masnach a Buddsoddi y DU ledled y cyfandir. Gwnaed cyfres o gyflwyniadau er mwyn sicrhau bod swyddogion Masnach a Buddsoddi y DU, rhwydweithiau busnes a siambrau masnach yn llwyr ymwybodol o gryfder yr hyn sydd gan Gymru i'w gynnig iddynt. Hefyd, mae'r tîm wrthi'n awr yn darparu cymorth yn y farchnad i gwmnïau Cymreig sy'n ceisio manteisio ar gyfleoedd allforio ledled Ewrop.

Rhaglen Waith 2014

Yn 2014, bydd y tîm masnach a buddsoddi ym Mrwsel yn parhau i ganolbwyntio ar atgyfnerthu cysylltiadau a chynyddu masnach rhwng cwmnïau Cymreig ac Aelod-wladwriaethau eraill yr UE yn y Farchnad Sengl. Mae cymorth ar gael i gwmnïau, o'r rhai sy'n ystyried eu cyfleoedd allforio cyntaf i allforwyr profiadol sy'n targedu marchnadoedd newydd. Mae cyfres o deithiau masnach wedi'u trefnu ar gyfer busnesau Cymreig i gyd-daro ag arddangosfeydd a digwyddiadau pwysig yn eu sectorau yn ystod 2014.

Bydd y tîm yn parhau i nodi cyfleoedd mewnfuddsoddi ac yn ceisio dangos bod Cymru yn lleoliad cryf i sefydlu gweithrediadau Ewropeaidd. Bydd y tîm yn canolbwyntio ar sectorau twf allweddol yn y prif farchnadoedd Ewropeaidd ac yn sicrhau y gall Cymru ennill unrhyw fuddsoddiad symudol. Nodwyd nifer o ddigwyddiadau busnes wedi'u targedu a chynadleddau sy'n canolbwyntio ar sectorau ledled Ewrop y gellir mynd iddynt er mwyn datblygu llif o ymholiadau a phrosiectau yn 2014.

Strategaeth Ewrop 2020: Swyddi a Thwf

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, gan adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar ein cynnydd a'n polisïau ar gyfer creu amodau twf. Fel hyn, byddwn yn parhau i gyfrannu at y weledigaeth ehangach ar gyfer ffyniant yn Ewrop hyd at 2020.

Adroddiad Blynyddol 2013

Yn 2013, gweithiodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn agos gyda'r Trysorlys ac adrannau perthnasol eraill yn Whitehall er mwyn sicrhau bod Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU (y Rhaglen) yn 2013 yn cynnwys camau gweithredu a mentrau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â heriau diwygio strwythurol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Mae'r holl Aelod-wladwriaethau yn cyflwyno Rhaglenni sy'n amlinellu eu cynlluniau diwygio i hyrwyddo twf a chyflogaeth. Gwneir hyn bob blwyddyn fel rhan o Strategaeth Ewrop 2020 yr UE ar gyfer twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol. Roedd Rhaglen y DU yn 2013 yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â phum prif darged y strategaeth ar y canlynol: Cyflogaeth; Addysg; Lleihau Eithrio Cymdeithasol a Thlodi; Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd; Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni.

Rhaglen Waith 2014

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n gynnar â'r Trysorlys ac adrannau perthnasol eraill yn Whitehall er mwyn sicrhau bod polisïau, mentrau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn Rhaglen y DU yn 2014, a gyhoeddir ar ddiwedd mis Ebrill.

Cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gael y canlyniad gorau i Gymru o Gyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020 a byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i wneud hyn. Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau bod rhaglenni'r UE yn cael yr effaith fwyaf bosibl a byddwn yn sicrhau bod y rhaglenni hyn wedi'u seilio ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ac yn canolbwyntio ar ddarparu a chyflawni canlyniadau i bobl, cymunedau a busnesau yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mewn Cyngor Ewropeaidd eithriadol ar 8 Chwefror 2013, cytunodd Penaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau'r Undeb Ewropeaidd ar gyllideb hirdymor yr UE, neu'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd (y Fframwaith), ar gyfer 2014-2020. Gwnaed hyn ar ôl i Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru yn ehangach ymgysylltu â Llywodraeth y DU yn bennaf dros gyfnod hir o amser ynglŷn â'r Fframwaith o 2011, fel y disgrifiwyd yn fanwl yn Adroddiad Blynyddol 2012, hyd at 2013.

Prif amcan Llywodraeth Cymru yn y trafodaethau ynglŷn â'r Fframwaith, fel y gwnaethom egluro ar bob cyfle, oedd llunio cytundeb a fyddai'n dod â swyddi a thwf i Gymru. Roedd gennym felly bryderon am agweddau ar gynnig y Cyngor Ewropeaidd, yn enwedig ynglŷn â'r newidiadau i'r fformiwla ar gyfer dyrannu Cronfeydd Strwythurol i ranbarthau tlotaf, neu "llai datblygedig" yr UE, fel Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a fyddai wedi cael effaith anghymesur ar y cymunedau sydd fwyaf agored i niwed. Byddai'r newidiadau arfaethedig wedi golygu y byddai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (yn ogystal â Chernyw) wedi colli allan i ranbarthau cyfeothocach, gan gynnwys rhai yn y DU. I Orllewin Cymru a'r Cymoedd, byddai'r cytundeb wedi golygu lleihad o oddeutu £400m ar gyfer 2014-2020 o gymharu â'r arian a gafodd y rhanbarth ar gyfer 2007-2013, a byddai'r ffigur wedi bod yn llawer mwy na hynny mewn termau real.

Roeddem wedi egluro ein barn yn glir i Lywodraeth y DU ar y mater hwn, gan gynnwys drwy lythyr gan y Prif Weinidog i Brif Weinidog y DU, cyn cyfarfod y Cyngor. Yn y cyfarfod, gofynnodd Aelod-wladwriaethau eraill - gan gynnwys yr Eidal, Sbaen, yr Almaen, Gwlad Belg ac Iwerddon - am ddyraniadau arbennig ychwanegol i ranbarthau y byddai'r setliad cyllidebol cyffredinol yn cael effaith andwyol arnynt ac fe'u rhoddwyd. Roeddent yn cynnwys newid i'r fformiwla ar gyfer rhanbarthau "llai datblygedig" mewn Aelod-wladwriaethau cymharol gefnog.

Roeddem yn pryderu nad oedd Llywodraeth y DU wedi llwyddo i negodi diogelwch tebyg i Gymru yn y Cyngor a gwnaethom alw'n syth am gamau i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Codwyd y mater hwn gan Weinidogion Cymru a swyddogion ar bob cyfle, gan gynnwys drwy Gydbwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop.

Ar ddiwedd mis Mawrth, arweiniodd y gwaith ymgysylltu parhaus hwn gan Lywodraeth Cymru, a barhaodd am bron ddwy flynedd, at benderfyniad ar ddyraniad mewnol y DU o Gronfeydd Strwythurol a fyddai'n golygu lleihad o oddeutu pump y cant i bob un o wledydd y DU, neu gynnydd o €375m i Gymru o gymharu â chytundeb mis Chwefror.

Fel y nodir isod, llwyddodd Cymru i gadw ei chyfran o'r arian a ddyrennir o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredinol drwy negodiadau o fewn y DU.

Bu'n rhaid i'r cynnig cyffredinol ar gyfer y Fframwaith gael ei gymeradwyo gan Senedd Ewrop. Ar ôl negodiadau â'r Cyngor a'r Comisiwn - a rhyngweithio gan Lywodraeth Cymru a rhai diwygiadau - gwnaed hyn ym mis Tachwedd 2013 a chafodd y Fframwaith ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor y Gweinidogion ym mis Rhagfyr.

Rhaglen Waith 2014

Ar ôl mabwysiadu'r Fframwaith ar ddiwedd 2013, bydd ffocws y gwaith yn newid i gytuno ar y rhaglenni ariannu o dan y Fframwaith cyffredinol a'u gweithredu, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi, y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, Horizon 2020 a Chyfleuster Cysylltu Ewrop.

Y Cronfeydd Strwythurol: Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol a ddyrennir i Gymru yn cael yr effaith fwyaf buddiol bosibl. Byddwn yn cefnogi prosiectau mwy strategol, ond llai ohonynt, ac rydym yn bwriadu canolbwyntio ar sicrhau swyddi a thwf cynaliadwy.

Adroddiad Blynyddol 2013

Parhaodd rhaglenni presennol y Cronfeydd Strwythurol (2007-2013) i berfformio'n dda gan gyflwyno buddiannau i bobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru. Hyd at 31 Rhagfyr 2013, roedd WEFO wedi buddsoddi £1.9bn o Gronfeydd Strwythurol yr UE mewn 287 o brosiectau a oedd yn cynrychioli £3.7bn o gyfanswm y buddsoddiad mewn prosiectau (gan gynnwys arian cyfatebol) yng Nghymru.

Roedd y buddsoddiad hwn wedi galluogi prosiectau'r UE i helpu 487,550 o gyfranogwyr i ennill cymwysterau, helpu 53,780 i mewn i waith a helpu 37,450 o bobl

i fanteisio ar ddysgu pellach. At hynny, mae 23,550 o swyddi (gros) a thua 7,600 o fentrau wedi cael eu creu. Hefyd, llwyddodd WEFO i gyflawni ei holl dargedau gwariant blynyddol (sef N+2) ym mhob un o'r pedair rhaglen y cytunodd y Comisiwn Ewropeaidd arnynt. Y prif nod o hyd oedd sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl drwy'r buddsoddiad hwn. Mae monitro gwariant a chynnydd yn ofalus yn hanfodol er mwyn cynyddu gwerth ac effaith y cronfeydd hyn i'r eithaf er budd Cymru.

Gwnaed cynnydd sylweddol hefyd yn ystod 2013 o ran datblygu, mewn partneriaeth, raglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol yng Nghymru, a fydd yn werth tua £2 biliwn o arian yr UE rhwng 2014 a 2020.

Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2013, cynhaliodd WEFO ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ledled Cymru i'w helpu i ddatblygu cynigion buddsoddi ar gyfer y rhaglenni newydd. Cytunodd y Cabinet ar y cynigion hyn ym mis Medi, gan baratoi'r ffordd i gynnal negodiadau anffurfiol â'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r cynigion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol yn gyson â chyfeiriad strategol ein Rhaglen Lywodraethu. Maent yn canolbwyntio'n gryf ar dargedu a blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael yn fwy, er mwyn helpu i drawsnewid twf economaidd a chynyddu swyddi, ac ar strategaethau gan gynnwys ein strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru, ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Strategaeth Ewrop 2020 a'r Rheoliadau drafft ar y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020.

Blaenoriaethau buddsoddi ein Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sy'n rhychwantu'r rhaglenni ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, yw: Ymchwil ac Arloesedd; Cystadleurwydd BBaCh; Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni; a Chysylltedd a Datblygu Trefol Cynaliadwy. Blaenoriaethau buddsoddi Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n rhychwantu'r ddwy raglen, yw: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy; Sgiliau ar gyfer Twf a Chyflogaeth Ieuenctid.

Mae'r rhaglenni hyn wedi'u datblygu fwy neu lai a lluniwyd cytundebau gwleidyddol pwysig ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd a'r pecyn deddfwriaethol ddiwedd mis Tachwedd ac ym mis Rhagfyr 2013, felly rydym yn disgwyl y gallwn gyflwyno ein rhaglenni i'w negodi'n ffurfiol â'r Comisiwn yn ystod gwanwyn 2014 cyn gynted ag y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno Cytundeb Partneriaeth y DU, sy'n ofyniad cyfreithiol.

Yn y cyfamser, rydym yn helpu rhanddeiliaid i gynllunio a datblygu prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru fel y gallwn eu rhoi ar waith yn syth ar ôl i'r Comisiwn gytuno ar raglenni Cymru.

Yn ogystal â'r negodiadau anffurfiol sy'n mynd rhagddynt â'r Comisiwn, rydym wedi cyhoeddi dogfennau drafft pwysig, gan gynnwys Pennod Cymru o Gytundeb Partneriaeth y DU, Rhaglenni Gweithredol y Cronfeydd Strwythurol, y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd, a chanllawiau eraill - sydd i gyd wedi'u datblygu fwy neu lai ar ôl cryn dipyn o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Ategwyd y dogfennau pwysig hyn gan ddigwyddiadau a gweithdai eraill a gynhaliwyd ledled Cymru i randdeiliaid a darpar noddwyr ar drefniadau gweithredu'r rhaglen newydd, gan gynnwys digwyddiad gwybodaeth blynyddol WEFO ar 28 Tachwedd.

Rhaglen Waith 2014

Bydd WEFO yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu Cytundeb Partneriaeth y DU, y disgwylir iddo gael ei gyflwyno ym mis Ebrill, a bydd hefyd yn gweithio gyda'r Comisiwn ar y negodiadau a'r cytundeb ffurfiol ar y Rhaglenni Gweithredol newydd.

Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid a darpar noddwyr yn ystod 2014 i sicrhau bod y prosiectau gorau'n cael eu cyflwyno a'u bod yn cael blaenoriaeth o ran cronfeydd yr UE. Er mwyn helpu i wneud hyn, caiff y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd, sy'n ategu'r Rhaglenni Gweithredol, ei ddatblygu ymhellach er mwyn helpu i greu portffolio cyffredinol o brosiectau a ariennir gan yr UE - prosiectau meingefn a phrosiectau ategol - a fydd yn gallu mynd i'r afael â chyfleoedd strategol ac economaidd newydd a sicrhau bod cronfeydd yr UE yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod cronfeydd PAC yn cael y budd mwyaf yng Nghymru. Rydym am weld buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu busnesau ffermio a gwledig proffidiol a chynaliadwy, creu cymunedau gwledig cryf a gwella gwaith rheoli amgylcheddol yn ein cefn gwlad.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae Cymru wedi cadw ei chyfran o arian PAC am ei bod wedi chwarae rhan amlwg yn y diwygiadau i'r PAC, a arweiniodd at gytundeb gwleidyddol ynglŷn â'r fframwaith rheoleiddio ym mis Mehefin 2013 a chanlyniad da o negodiadau mewnol y DU ar y gyllideb. Cafodd cynigion polisi eu datblygu ymhellach â'r undebau amaeth a chyrrff rhanddeiliaid eraill, eu mireinio ac ymgynghorwyd arnynt, a llwyddwyd i sicrhau lefel uchel o ymgysylltiad â'r cyhoedd drwy gynnal cyfarfodydd gyda'r hwyr ledled Cymru.

Parhaodd y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) i roi amrywiaeth eang o gymorth i sectorau diwydiannau tir yr economi wledig, busnesau bwyd-amaeth a'r gymuned wledig ehangach. O dan y rheolau pontio, gall y CDG yn awr wneud ymrwymadau o dan y rhan fwyaf o fesurau drwy gydol 2014 oherwydd cafodd rheoliadau'r UE ar gyfer cyfnod y rhaglen olynol eu cymeradwyo'n hwyrach na'r disgwyl a bydd hyn yn sicrhau bod trefniadau cyflawni yn pontio ac yn parhau o dan y Rhaglen newydd. Cafodd y targed blynyddol i wario'r arian a ddyrannwyd o gyllideb yr UE o fewn dwy flynedd i'r dyraniad ("N+2") ei gyflawni dri mis cyn y terfyn amser yn 2013. Mae adolygiad yn mynd rhagddo o'r cyfanswm o swyddi (gros) a grëwyd, a chadarnhawyd 187 ohonynt. Mae ymarfer ar waith hefyd i gasglu gwybodaeth fonitro am fwy na 660 o swyddi eraill a grëwyd. Rhoddwyd cymorth i 182 o fentrau a darparwyd 34,749 o ddiwrnodau hyfforddi, gan olygu bod 16,391 o gyfranogwyr wedi llwyddo i gwblhau gweithgaredd hyfforddi.

Wrth ddatblygu'r CDG ar gyfer 2014-2020, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â gweinyddiaethau eraill y DU fel rhan o negodiadau'r DU ar y rheoliadau ac ar gyfran Cymru o ddyraniad cyllid y DU. Yn ystod 2013, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad cynnar, ffurfiol ar gynnwys tebygol y CDG a chynhaliwyd

dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT), drwy gyfrwng nifer o gyfarfodydd cyhoeddus.

Glastir yw prif gynllun amaeth-amgylchedd Llywodraeth Cymru. Mae Grantiau Effeithlonrwydd Glastir yn rhoi taliadau a ariennir yn rhannol i ffermwyr er mwyn iddynt wneud buddsoddiadau cyfalaf i wella ffermydd drwy beiriannau a seilwaith. Erbyn diwedd 2013, roedd 164 o gontractau, gwerth ychydig dros £2m, wedi'u dyfarnu er mwyn mynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni, dŵr a thail a slyri.

Mae rheoli'r amgylchedd yn thema ganolog yn y CDG sy'n ymdrin ag amrywiaeth o amcanion strategol, gan gynnwys gwella ansawdd dŵr, lleihau llygredd, rhoi terfyn ar golli bioamrywiaeth, rheoli newid yn yr hinsawdd a gwarchod coedwigoedd a thirweddau sy'n cael eu ffermio. Erbyn 2013, roedd 2,224 o gontractau Glastir Sylfaenol wedi'u llofnodi yn cwmpasu tua 209,000 hectar, ac roedd 147 o gontractau o dan Glastir - Tir Comin yn cwmpasu ychydig llai na 85,000 hectar. Yn 2013, llofnodwyd contractau cyntaf Glastir Uwch, gyda 253 o unigolion yn cymryd rhan yn y cynllun sy'n golygu bod 31,000 hectar o dir yn cael ei reoli mewn ffordd a dargedir.

Roedd y gwaith o blannu coetiroedd newydd o dan gynllun Glastir - Creu Coetir wedi parhau i fynd o nerth i nerth ac erbyn diwedd 2013 roedd 571 o gontractau wedi'u llofnodi yn cwmpasu 1,566 hectar. Erbyn 1 Ionawr 2014, bydd tua 200 o gontractau Glastir - Rheoli Coetir wedi'u llunio.

O dan Gynllun y Taliad Sengl, prosesodd Taliadau Gwledig Cymru daliadau i 94% o geiswyr ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod talu (2 Rhagfyr 2013). Cafodd cyfanswm o oddeutu 15,500 o geisiadau eu prosesu a thalwyd tua £196 miliwn, sy'n well na chyflawniadau ardderchog yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Yn ogystal â hyn, gwnaed blaendaliadau o 50% ym mis Hydref i 3,100 o'r ffermwyr hyn a wnaeth ddioddef yn sgil y tywydd garw ym misoedd Mawrth ac Ebrill 2013. Rhagwelir y bydd tua 97% o'r ceiswyr wedi cael eu talu erbyn diwedd 2013.

Parhaodd rhaglen Taliadau Gwledig Cymru (TGC) Ar-lein i gydweithio â ffermwyr, asiantau, unedau a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod y gwasanaeth ar-lein yn hawdd ei ddefnyddio ac yn addas at y diben.

Daeth TGC Ar-lein ar gael i'r holl ffermwyr, a'r rhai sy'n gweithredu ar eu rhan, ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r defnydd a wnaed o'r rhaglen hyd yma yn galonogol, gyda bron 7,000 o gwsmeriaid wedi gofyn am fynediad i'r gwasanaeth, yn uniongyrchol neu drwy drydydd parti. Hefyd, mae rhaglen TGC Ar-lein wedi cael cefnogaeth gyhoeddus gan randdeiliaid dylanwadol yn y gymuned ffermio.

Rhaglen Waith 2014

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ei benderfyniadau ar brif nodweddion elfen taliadau uniongyrchol y PAC (Colofn 1) ym mis Ionawr. Bydd rhagor o waith datblygu polisi yn cael ei wneud ynglŷn â manylion y trefniadau newydd pan fydd yr UE yn cwblhau'r rheoliadau gweithredu a'r deddfau dirprwyedig. Caiff cynigion llawn ar gyfer Colofn 1 eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 1 Awst 2014. Bydd TGC yn hysbysu ceiswyr cyn Sioe Frenhinol Cymru am drefniadau'r taliadau uniongyrchol o 2015 ymlaen.

Lansiodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ymgynghoriad ar y cynnig terfynol ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar 17 Chwefror. Bydd rhagor o waith datblygu polisi yn cael ei wneud ynglŷn ag agweddau ar y trefniadau newydd pan fydd yr UE yn cwblhau'r rheoliadau gweithredu a'r deddfau dirprwyedig. Ers 23 Ionawr 2014, mae'r Gweinidog wedi bod yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer cynllun Glastir o dan y cyfnod Rhaglennu nesaf. Caiff canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn eu defnyddio i ddatblygu'r CDG nesaf. Caiff cynigion llawn ar gyfer Colofn 2 eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn diwedd mis Mai 2014, i gyflawni uchelgeisiau Cytundeb Partneriaeth y DU. Bydd gwaith gweithredu manwl yn cael ei wneud yn 2014 a'r nod yw y bydd rhaglen fyw ar waith o 2015 ymlaen.

Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar gynllun organig newydd, a fydd yn weithredol o fis Ionawr 2015 ymlaen o dan y CDG nesaf.

Y nod ar gyfer prosiect TGC Ar-lein yw bod cyfran sylweddol o ffermwyr, naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantau neu undebau ffermio, yn cwblhau ac yn cyflwyno Ffurflen y Cais Sengl ar-lein yn 2014. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod y broses mor hawdd â phosibl a thrwy ei hyrwyddo i'r diwydiant ffermio.

Rhagwelir y bydd 2,300 o gontractau Glastir Sylfaenol a 34 o gontractau Glastir - Tir Comin yn cael eu llofnodi yn 2014, ynghyd ag 800 o gontractau Glastir Uwch yn cynnwys tir ffermio a thir comin.

Mae cynlluniau ar waith i sicrhau bod perfformiad da 2013 o ran taliadau yn parhau ac i ateb yr heriau sy'n codi o Ddiwygiadau'r PAC yn 2014 er mwyn gwella perfformiad talu ymhellach.

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC)

Ein nod yw sicrhau bod y cronfeydd sydd ar gael yng Nghymru yn cael y budd mwyaf posibl. Yn y dyfodol, rydym am weld buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cymunedau pysgota, arloesedd mewn meysydd fel diogelu'r amgylchedd, casglu data, ymchwil wyddonol, dyframaethu a rheoli gweithrediadau pysgota.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae cyflwyno PPC diwygiedig yn ymrwymiad statudol a osodwyd ar y DU fel Aelod-wladwriaeth ac mae'r cyfrifoldeb am ei gyflwyno yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Chwaraeodd Llywodraeth Cymru ran flaenllaw yn negodiadau'r DU ar ddiwygio'r PPC, a ddaeth i ben yn ystod 2013. Bydd y fframwaith rheoleiddio newydd yn galluogi Aelod-wladwriaethau i reoli pysgodfeydd a chyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Yn eu plith mae'r gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl, sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf (CCM) ar gyfer pob pysgodfa fawr erbyn 2020, llunio Cynlluniau Amlflwydd i gefnogi penderfyniadau ynglŷn â chyfleoedd pysgota gan gynnal y CCM ar yr un pryd, cyflwyno system reoli ranbarthol a gwella dyframaethu.

Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop fydd y gronfa Ewropeaidd newydd ar gyfer 2015-2020 ac fe'i sefydlwyd er mwyn helpu i ddatblygu pysgodfeydd cynaliadwy a dyframaethu a gweithredu'r PPC newydd. Mae hefyd yn cyfuno arian i gasglu data ac arian rheoli a gorfodi, a oedd yn perthyn i drefniadau ariannu gwahanol cyn hyn.

Mae gan y Gronfa bedwar amcan cyffredinol ar gyfer Ewrop:

- Hyrwyddo dyframaethu a physgodfeydd cystadleuol a chynaliadwy;
- Helpu i weithredu'r PPC
- Hyrwyddo trefniadau datblygu tiriogaethol cytbwys a chynhwysol o ran ardaloedd pysgodfeydd
- Helpu i ddatblygu a gweithredu'r Polisi Morol Integredig.

Yng Nghymru, bydd gweithgareddau craidd Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- Pysgodfeydd 'Gwyrdd Call'
- Dyframaethu 'Gwyrdd Call'
- Cymunedau Pysgodfeydd - Datblygiadau Lleol o dan Arweiniad Cymunedau

Mae rhaglen bysgodfeydd bresennol yr UE yng Nghymru (Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (CPE)) yn gymharol fach gyda chyllideb o £16.1m yn yr Ardal Gydgyfeirio a £2.4m yn yr Ardal nad yw'n Ardal Gydgyfeirio. Mae'r rhaglen yn parhau i gyflawni ac (ar 17 Rhagfyr) mae ganddi ymrwymïadau o 80% (£12.9m) yn yr Ardal Gydgyfeirio a 108% (£2.6m) yn yr Ardal nad yw'n Ardal Gydgyfeirio. Mae dros 80 o brosiectau byw ar waith gyda ffigurau gwariant o 29% (£4.7m) yn yr Ardal Gydgyfeirio a 54% (£1.3m) yn yr Ardal nad yw'n Ardal Gydgyfeirio.

Mae rhaglen Echel 4 CPE yn rhoi cymorth i ddatblygu ardaloedd pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Yn benodol, mae'n cefnogi mesurau i arallgyfeirio'r economi a hyrwyddo ansawdd bywyd gwell mewn ardaloedd lle mae gweithgareddau pysgota wedi lleihau. Cymeradwywyd pedwar Grŵp Gweithredu Pysgodfeydd Lleol i gyflawni gweithgarwch o dan Echel 4 mewn pum rhanbarth daearyddol: Ynys Môn a Gwynedd, Abertawe a'r Mwmbwls, Ceredigion a Sir Benfro. Cafodd Strategaethau Datblygu Lleol a dulliau cyflawni'r Grwpiau Gweithredu Pysgodfeydd Lleol eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ystod hydref 2012. Mae pob Grŵp wedi cyflwyno prosiect 'Costau Rhedeg' ac 'Animeiddio, Gwerthuso a Chyfathrebu', a chafodd yr holl brosiectau hyn eu harfarnu a'u cymeradwyo yr hydref hwn ac mae ganddynt werth grant o £706,659. Gwnaeth Grŵp Sir Benfro gais am Gynllun Grant Bach a gofynnodd am £66,000 a chafodd ei gais ei gymeradwyo.

Mewn cyfarfod ar 20-21 Tachwedd, cymeradwyodd Pwyllgor Monitro Rhaglen CPE estyniad o chwe mis i raglen CPE, sy'n golygu y gellir gwneud ymrwymïadau newydd tan 30 Mehefin 2014.

Rhaglen Waith 2014

Bydd negodiadau manwl ar weithredu PPC diwygiedig yn parhau drwy gydol 2014, yn enwedig ar faterion rheoli, mesurau technegol, a PPC mwy rhanbarthol, a bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl weithgar.

Mae Echel 4 yn flaenoriaeth fawr ar gyfer 2014 er mwyn sicrhau bod y gyllideb o £1.6m yn cael ei defnyddio'n llawn a bod y broses gyflawni yn para tan fis Mehefin 2015.

Mae negodiadau'r UE ynglŷn â datblygu rhaglen nesaf Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn mynd rhagddynt gyda Chymru'n cyfrannu'n weithredol at fewnbwn y DU. Mae'r amserlen wreiddiol ar gyfer cychwyn y rhaglen wedi newid o 1 Ionawr 2014 i 2015. Yn ystod 2014, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, asiantaethau eraill, y Grwpiau Gweithredu Pysgodfeydd Lleol, y Sefydliad Rheoli Morol a Defra i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl yng Nghymru er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yn Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013.

Datblygu Cynaliadwy

Byddwn yn sicrhau bod ymagwedd Llywodraeth Cymru a'r UE at ddatblygu cynaliadwy yn gyson. Byddwn yn ymgysylltu'n rhyngwladol er mwyn hyrwyddo gwerthoedd datblygu cynaliadwy a chydweithredu yn Ewrop a thu hwnt.

Adroddiad Blynyddol 2013

Daeth ymgynghoriad y Papur Gwyn ar Fil Cenedlaethau'r Dyfodol - y Bil Datblygu Cynaliadwy fel y'i galwyd ar y pryd - i ben ar 4 Mawrth 2013. Diben Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yw helpu i ddiogelu cymunedau at y dyfodol drwy newid pwyslais gwasanaethau cyhoeddus o geisio datrys problemau ar ôl iddynt ddigwydd i weithredu'n gynnar er mwyn diogelu a gwella ein hamgylchedd, ein heconomi a'n cymdeithas. Mae'n ymwneud â phrif ffrydio datblygu cynaliadwy.

Ffactorau eraill a ddylanwadodd ar ddatblygiad y Bil oedd trafodaeth fyd-eang y Cenhedloedd Unedig ar nodau datblygu cynaliadwy newydd, gan adeiladu ar lwyddiannau Nodau Datblygu'r Mileniwm; a'r esiampl a ddangoswyd gan wledydd eraill sydd wedi, neu sy'n ceisio, cynnwys deddfwriaeth ar gynaliadwyedd yn eu llyfrau statud, neu sydd â pholisïau datblygu cynaliadwy cryf.

Roedd hi'n bleser hefyd cyfarfod ag UNICEF i drafod ein hymdrechion ar y ddeddfwriaeth flaengar hon. Edrychwn ymlaen at drafodaethau pellach ar sicrhau cysondeb ag Agenda Ôl-15 y Cenhedloedd Unedig ac rydym yn hyderus y bydd y Bil yn fodel defnyddiol y gall rhanbarthau a gwledydd eraill ddysgu oddi wrtho yn y dyfodol.

Rhaglen Waith 2014

Yn 2014, caiff Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae trafodaeth fyd-eang y Cenhedloedd Unedig ar nodau datblygu cynaliadwy wedi arwain at awgrymiadau ym maes trechu tlodi; cyfleoedd dysgu i bawb; gwella iechyd, cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Gofynnwyd i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy drafod â phobl ledled Cymru ynglŷn â beth sydd fwyaf pwysig iddynt hwy wrth wella eu bywydau eu hunain a bywydau eu teuluoedd a'u cymunedau. Bydd y drafodaeth genedlaethol hon, yng ngwanwyn 2014, yn gyfle i bawb ddylanwadu ar nodau hirdymor gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd, a fydd yn gyfrifol am annog pobl i gymryd rhan yn y drafodaeth genedlaethol yn rheolaidd ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu.

Bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, y mae ei bortffolio'n cynnwys cyfrifoldeb trawsbynciol am ddatblygu cynaliadwy, yn mynd i ddigwyddiadau Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach ac yn rhwydweithio â rhanbarthau sydd â'r un meddylfryd er mwyn rhannu profiadau o ddeddfu ym maes datblygu cynaliadwy.

Cyfleuster Cysylltu Ewrop: Trafnidiaeth, Ynni a Rhwydweithiau Telathrebu

Mae ein cysylltedd ag Aelod-wladwriaethau eraill yn hollbwysig er mwyn manteisio ar gyfleoedd y Farchnad Sengl a chyflawni ein huchelgais o sicrhau twf cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu potensial Cyfleuster Cysylltu Ewrop i gefnogi buddsoddiadau seilwaith mawr a chysylltedd rhyngwladol a bod o fudd i'r amgylchedd.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod ag Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU ynglŷn â gweithredu Rheoliad yr UE ar Seilwaith Ynni Traws-Ewropeaidd a sut i'w roi ar waith yn ymarferol.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar y fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer TEN-T (Y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd) a Chyfleuster Cysylltu Ewrop (CCE) am y cyfnod 2014-2020.

Buddsoddi mewn seilwaith telathrebu yw un o'r prif flaenoriaethau a nodwyd yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, un o ymrwymïadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu yw sicrhau y gall cartrefi a busnesau yng Nghymru gael band eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2016.

Mae Llywodraeth Cymru a BT yn gweithio mewn partneriaeth drwy raglen Cyflymu Cymru i gyflwyno buddiannau band eang ffeibr i'r ardaloedd hynny y tu allan i'r ôl-troed masnachol arfaethedig yng Nghymru. Gyda chymorth ariannol gan yr UE, dyma'r buddsoddiad mwyaf o'i fath ar hyn o bryd yn y DU ac, o'i gyfuno a'r cynllun cyflwyno masnachol, bydd yn sicrhau y gall 96% o safleoedd ledled Cymru gael band eang ffeibr cyflym. Bydd y rhaglen arloesol hon, sy'n werth miliynau o bunnoedd, yn cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled y wlad ac yn golygu mai Cymru fydd un o'r gwledydd mwyaf cysylltiedig yn y byd.

Bydd y rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r UE, ynghyd â buddsoddiad cyffredinol BT yng Nghymru, yn cael buddsoddiad o £425m. Caiff ei chyflwyno mewn 14 o awdurdodau lleol ledled Cymru yn 2013/14 a'i hymestyn i'r 22 o awdurdodau lleol erbyn 2015/16. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda a, hyd yma, mae dros 10,000 o safleoedd wedi cael mynediad i fand eang ffeibr cyflym drwyddi. Bydd y buddsoddiad mawr hwn mewn seilwaith yn creu newid sylweddol yn seilwaith digidol Cymru a fydd yn sail i strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn yr hirdymor.

Cydnabu Llywodraeth Cymru fod angen parhau i lenwi unrhyw fylchau na ddisgwyllir iddynt gael eu llenwi'n uniongyrchol drwy'r cam hwn yn ein hymrwymadau ar fand eang y genhedlaeth nesaf. Helpodd ein Cynllun Cymorth Band Eang, a ddaeth i ben ar 30 Medi 2013, dros 5,200 o gartrefi a busnesau oedd â chysylltiadau cyson araf i gael cysylltiad band eang sylfaenol.

Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru, a lansiwyd ar 1 Hydref 2013, yn ategu rhaglen Cyflymu Cymru. Mae'r cynllun ar gael i fentrau, trigolion, sefydliadau trydydd sector a chymunedau na allant gael cyflymder band eang o fwy na 2Mbps drwy eu helpu i gael cysylltiad band eang gan ddefnyddio'r dechnoleg fwyaf priodol.

Rhaglen Waith 2014

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod ag Adran Ynni a Newid Hinsawdd y DU ynglŷn â gweithredu Rheoliad yr UE ar Seilwaith Ynni Traws-Ewropeaidd a sut i'w roi ar waith yn ymarferol. Caiff y cysylltiadau tanfor arfaethedig rhwng Iwerddon a Chymru, i gysylltu prosiectau gwynt yn Iwerddon â rhwydwaith grid y DU, eu trin o dan y Rheoliadau hyn.

Mae buddsoddiadau sylweddol i'w gwneud hefyd ym maes effeithlonrwydd ynni a'r economi carbon isel drwy raglenni newydd Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 a Horizon 2020. Bydd WEFO yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid a chynnal digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfranogaeth a chyfleoedd yn y maes hwn yn cael eu cynyddu i'r eithaf.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T) a Chyfleuster Cysylltu Ewrop (CCE) ar gyfer 2014-2020 wedi'i sefydlu, gan gynnwys y mapiau o'r rhwydweithiau trafndiaeth Craidd a Chynhwysfawr.

Mae'r prif lwybrau trafndiaeth a chyfleusterau yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y rhwydweithiau; byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Adran Drafndiaeth y DU a byddwn yn cysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn helpu i gyflwyno'r rhwydweithiau a sicrhau'r arian mwyaf posibl o dan CCE a chyfleoedd buddsoddi eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cynllun Allwedd Band Eang Cymru a chyflwyno rhaglen Cyflymu Cymru er mwyn sicrhau y gall cartrefi a busnesau yng Nghymru gael band eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2016.

Horizon 2020: Cymorth ar gyfer Ymchwil, Datblygu, Arloesedd a Gwyddoniaeth

Rydym ynghlwm wrth y gwaith i ddatblygu menter Horizon 2020 a byddwn yn gweithio i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynllunio i ategu'r Cronfeydd Strwythurol. Rydym yn ceisio symleiddio'r broses o wneud cais er mwyn lleihau'r baich ar BBaChau a chynigwyr eraill. Ein nod yw cynyddu cyfanswm yr arian a ddyfernir i waith ymchwil cystadleuol yng Nghymru yn sylweddol o'r lefel bresennol, sef tua 2% o gyfanswm y DU.

Adroddiad Blynyddol 2013

Erbyn Tachwedd 2013, roedd gan Gymru 393 o gyfranogwyr yn Seithfed Rhaglen Fframwaith (a elwir yn FP7) yr UE i ariannu ymchwil a datblygiad technolegol (2.5% o gyfanswm y DU), a oedd yn werth €125.6m (2.0% o gyfanswm y DU).

Adolygodd Llywodraeth Cymru ei threfniadau i weithredu rhaglenni ariannu'r UE yn ystod 2012 ac yn sgil hyn, penderfynwyd mai WEFO fyddai'r pwynt cyswllt yng Nghymru ar gyfer FP7 o fis Ionawr 2013 (ac, yn sgil hynny, ar gyfer menter Horizon 2020, a fydd yn werth €79 biliwn ledled rhanbarthau'r UE o 2014).

Mae'r Uned Horizon 2020 newydd, sy'n rhan o WEFO, mewn sefyllfa dda i helpu i ymchwilio i'r cyflenwoldeb a'r synergeddau rhwng FP7 / Horizon 2020 a'r Cronfeydd Strwythurol, gyda'r Cronfeydd Strwythurol yn gweithio fel 'carreg bontio' i helpu i sicrhau bod mwy o sefydliadau o Gymru yn cymryd rhan yn Horizon 2020.

Mae Uned Horizon 2020 wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn, ac mae'n parhau i nodi'r math o gymorth ac arweiniad sydd eu hangen ar randdeiliaid er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cydweithredu ac yn cyfranogi mwy yn Horizon 2020. Ym mis Mai 2013, er enghraifft, lansiodd y Gweinidog Cyllid gronfa SCoRE Cymru, gwerth £70,000, i helpu sefydliadau i lunio cynigion cydweithredol a chystadleuol. Hyd yma, mae cynllun SCoRE Cymru wedi cael 90 o ymholiadau a 34 o geisiadau (cymeradwywyd 28 ohonynt). Gwnaed 40 o'r ymholiadau gan BBaChau, a arweiniodd at 12 cais a gafodd eu cymeradwyo i gyd.

Mae Uned Horizon 2020 hefyd yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ymchwil ac arloesi'r rhaglen hon drwy weithdai a digwyddiadau a oedd, yn 2013, wedi cynnwys digwyddiad gan y Gweinidog (ar 13 Tachwedd) i lansio Horizon 2020 yng Nghymru a gweithdai ar themâu a oedd yn berthnasol i holl feysydd yr Her Fawr: Ynni, Iechyd a Gwyddorau Bywyd; a'r Gofod.

Rydym hefyd yn parhau i ymchwilio i'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil cynlluniau'r Comisiwn i annog mwy o BBaChau i gymryd rhan yn Horizon 2020 ac rydym yn hyrwyddo trafodaethau gwell â'r sector Addysg Uwch, Cyngorau Ymchwil a busnesau a'r Comisiwn.

Rhaglen Waith 2014

Mae astudiaeth gwmpasu annibynnol o Horizon 2020 yn cael ei chynnal er mwyn nodi meysydd i'w gwella yn rhwydwaith gymorth Cymru fel bod unrhyw fuddsoddiad pellach yn y maes hwn yn cael ei dargedu a'i fod yn ychwanegu gwerth at gymorth presennol yng Nghymru, y DU a'r UE. Cyhoeddir adroddiad yr astudiaeth yn ystod gwanwyn 2014.

Bydd Uned Horizon 2020 yn parhau i gynnig cyngor a chymorth ariannol drwy SCoRE Cymru i randdeiliaid yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu a gwella eu cynigion i Horizon 2020.

Bydd hefyd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru, y DU ac Ewrop i hwyluso cyfres o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a digwyddiadau arbenigol ar Horizon 2020, gan gynnwys Gweithdy 'Horizon 2020 ac Arbenigo Call' mewn Cynhadledd Ryngwladol ar Ddylunio a Gweithgynhyrchu Cynaliadwy yng

Nghaerdydd ar ddiwedd Ebrill a digwyddiad Marie Skłodowska-Curie Actions ym mis Mai/Mehefin.

Bydd cynllunio buddsoddiadau o raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yn hollbwysig hefyd fel y bydd y gweithgareddau a gefnogir yn helpu i gynyddu gallu sefydliadau yng Nghymru i gymryd rhan yn Horizon 2020 ac arian cystadleuol arall ar gyfer ymchwil a datblygu.

Bydd yr Uned yn gweithio'n agos gyda rhannau eraill o Lywodraeth Cymru i adeiladu ar fentrau fel Sêr Cymru, y Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol, cefnogi arloesedd a gweithgarwch perthnasol gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg (BST). Yn yr un modd, bydd yr Uned yn parhau i adeiladu ar gydberthnasau â chysylltiadau yn Ewrop a rhwydwaith Horizon 2020 y DU, sy'n cynnwys y BST, Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau'r DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Addysg, Sgiliau, Cyflogaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at godi lefelau sgiliau er mwyn ysgogi cyfradd gyflogaeth uwch, yn enwedig swyddi crefftus sy'n denu cyflogau uwch. Mae'r amcan hwn, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth yr UE yn Ewrop 2020, yn ceisio cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gynhyrchiant, twf, incwm cartrefi a thlodi plant.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae Cymunedau 2.0, a gefnogir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac sy'n rhedeg tan fis Ebrill 2015, eisoes wedi helpu mwy na 32,000 o bobl i feithrin y sgiliau a'r gallu i fynd ar-lein a chael eu cynnwys yn ddigidol, gan wella eu cyflogadwyedd a helpu i leihau achosion o ynysu cymdeithasol, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, pobl anabl, pobl ddi-waith a thenantiaid tai cymdeithasol. Mae'r rhaglen hefyd yn helpu mentrau cymdeithasol a micro fusnesau i ddefnyddio TGCh er mwyn arloesi a gwella eu gwasanaeth.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r Cynllun yn cynnwys targedau a cherrig milltir sy'n croestorri holl waith Llywodraeth Cymru ym maes Addysg, Sgiliau, Iechyd a Chyflogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig o hyd i'r targed o ddileu Tlodi Plant erbyn 2020 a chyhoeddodd ei Hadroddiad Cynnydd ar y Strategaeth Tlodi Plant ym mis Tachwedd. Mae'r adroddiad hwn yn asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y tri amcan strategol a nodwyd yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2011.

Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop hefyd yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflwyno llawer o gynlluniau cyflogaeth a sgiliau. Er enghraifft, erbyn diwedd mis Rhagfyr, roedd ein cynllun blaenllaw a ariennir gan yr UE, Twf Swyddi Cymru, wedi creu tua 10,600 o gyfleoedd swyddi a chafodd 8,630 o'r rhain eu llenwi gan bobl ifanc.

Mae unigolion a chyflogwyr hefyd yn cael budd o gynlluniau fel y rhaglen Prentisiaethau Modern sy'n rhoi cyfleoedd hyfforddiant gwaith i unigolion ac yn helpu cyflogwyr i sefydlu gweithlu â sgiliau proffesiynol.

Rhaglen Waith 2014

Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi newydd ar Sgiliau a oedd yn canolbwyntio ar wella lefelau sgiliau ledled Cymru.

Mae'r Datganiad yn nodi gweledigaeth ar gyfer polisïau cyflogaeth a sgiliau dros y 10 mlynedd nesaf a'r camau cyfrifol y mae angen i'r holl randdeiliaid eu cymryd i ddatblygu system sgiliau ôl-19 sy'n gydnerth, yn ymatebol ac yn gynaliadwy. Mae hefyd yn cydnabod y dewisiadau anodd y bydd yn rhaid eu gwneud er mwyn galluogi Cymru i feithrin y sgiliau sydd eu hangen i gynyddu cynhyrchiant a lleihau rhwystrau i gyflogaeth.

Mae'r datganiad yn ymdrin â phedair blaenoriaeth, sef:

- Sgiliau ar gyfer swyddi a thwf - sicrhau bod gan Gymru fwy o sgiliau a all gystadlu mewn economi fyd-eang.
- Sgiliau sy'n ymateb i anghenion lleol – cynnig cyflogaeth a sgiliau integredig a hygyrch i gyflogwyr ac unigolion ar sail eu hanghenion.
- Sgiliau a werthfawrogi gan gyflogwyr - os disgwylir i gyflogwyr fuddsoddi mwy mewn datblygu sgiliau, rhaid i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid sicrhau bod yr hyfforddiant sydd ar gael o ansawdd uchel ac yn bodloni eu gofynion.
- Sgiliau ar gyfer cyflogaeth - sicrhau bod y cymorth cyflogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegu gwerth at raglenni yn y DU ac yn adeiladu ar lwyddiannau, fel Twf Swyddi Cymru.

Dilynwyd y Datganiad Polisi ar Sgiliau gan ymgynghoriad ar gyd-fuddsoddi mewn cyfleoedd dysgu ôl-19. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio i lunio cynnwys Cynllun Gweithredu a gyhoeddir ym mis Gorffennaf 2014. Bydd y Cynllun yn cynnwys yr amserlen ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu yn y Datganiad Polisi a pholisi cyd-fuddsoddi i Gymru.

Bydd y rhaglen flaenllaw Twf Swyddi Cymru yn parhau tan 2015, a chaiff £75m ei fuddsoddi gyda'r nod o greu 4,000 o gyfleoedd swyddi eraill bob blwyddyn.

Yn y dyfodol, bydd rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer 2014-2020 yn parhau i wneud buddsoddiadau hanfodol er mwyn helpu pobl i mewn i waith a hyfforddiant, gan gynnwys ym maes cyflogaeth ieuenctid.

Yn gyffredinol, caiff o leiaf 20% o Gronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 yng Nghymru ei ddyrannu i gynlluniau sy'n ceisio trechu tlodi a mynd i'r afael â chynhwysiant cymdeithasol - ymrwymiad a nodir yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.

Ynni

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i roi arweiniad ar ynni, cynyddu'r buddiannau economaidd a chymunedol a gweithredu ar unwaith i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol ynni hirdymor fel y nodir yn Ynni Cymru. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth o fewn yr UE i geisio cyflawni ein dyheadau cyffredin o ran ynni.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i anelu at sefydlu economi carbon isel drwy ddulliau amrywiol gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddileu rhwystrau ac ysgogi buddsoddiad.

Mae gan y wlad gyfoeth o adnoddau ynni ac, er mwyn cael buddiannau economaidd cynaliadwy o'r rhain, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tair Ardal Fenter (o'r saith sydd ar gael) sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y sector ynni.

Mae'r Bil Diwygio Cynllunio yn ceisio sicrhau bod proses gwneud penderfyniadau fwy integredig ar waith yng Nghymru ar gyfer prosiectau seilwaith strategol. Disgwylir y bydd hyn yn cyflymu'r broses gynllunio yng Nghymru a'i gwneud yn fwy cyson.

Mae effeithlonrwydd ynni yn parhau i fod yn flaenoriaeth fawr gydag 'Arbed', sef ein cynllun effeithlonrwydd ynni ar sail ardal, a 'Nyth', sef ein cynllun tlodi tanwydd, yn helpu i leihau'r defnydd o ynni a thlodi tanwydd ledled Cymru.

Mae cynhyrchu gwasgaredig yn flaenoriaeth hefyd ac mae cynllun Ynni'r Fro gan Lywodraeth Cymru, a gefnogir gan arian yr UE, yn cynnig cymorth grant, benthyciadau a chynghor a gwybodaeth ymarferol ac annibynnol am ddim i fentrau cymdeithasol er mwyn eu helpu i ddatblygu eu cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol eu hunain ledled Cymru. Cynhaliwyd adolygiad canol tymor o'r rhaglen yn ddiweddar a defnyddir yr adolygiad hwn i wneud gwelliannau pellach ac fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer rhaglenni eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gael mwy o werth economaidd o ddatblygiadau ynni masnachol yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth hon yn dwyn ffrwyth, ar ôl i'r diwydiant gwynt ar y tir yng Nghymru lofnodi datganiad o fwriad yn ddiweddar i gynyddu gwerth economaidd a chymunedol yng Nghymru.

Caiff dull partneriaeth Llywodraeth Cymru ei ymgorffori gan Grŵp Cyflawni Strategol Ynni Cymru, sef fforwm o uwch swyddogion gweithredol o'r sector ynni, rheoleiddwyr, y Llywodraeth a darparwyr seilwaith. Caiff y fforwm ei gadeirio gan y Prif Weinidog ac mae'n ysgogi gweithgarwch cydweithredol i gyflawni ein huchelgeisiau. Mae Panel y Sector Ynni a'r Amgylchedd Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth hefyd yn rhoi cynghor ar y rhwystrau i dwf economaidd cynaliadwy yn y sector a'r strategaethau i ysgogi buddsoddiad.

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru adnodd mapio ar-lein yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) er mwyn rhoi gwybodaeth i ddatblygwyr prosiectau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw am gyfyngiadau datblygu allweddol mewn safleoedd penodol. Mae'r adnodd ar-lein hefyd yn galluogi datblygwyr i lanlwytho eu ffeiliau siâp GIS eu hunain. Mae ar gael i'r holl ddatblygwyr ar gais.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu a gweithredu Diwygiadau'r DU i'r Farchnad Drydan.

Rhaglen Waith 2014

Yn 2014, cyhoeddir Cynllun Cyflawni Ynni Cymru, gan adeiladu ar yr egwyddorion a nodir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel, a datblygir rhaglenni i sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael cymaint o fudd economaidd a chymdeithasol â phosibl yn y sector hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o eglurder strategol i'r map llwybr ynni a defnydd seilwaith cysylltiedig, er mwyn gwneud pethau'n symlach i gymunedau a buddsoddwyr. Byddwn yn helpu diwydiant i newid i economi carbon isel a mynd ar drywydd Map Llwybr Ynni yr UE 2050 drwy leihau anghenion ynni a manteisio ar gyfleoedd a fydd yn deillio o fodelau busnes a mentrau newydd.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod mai cost ynni yw un o'r prif faterion sy'n effeithio ar gystadleurwydd busnesau yng Nghymru ac felly nodwyd ei fod yn flaenoriaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio dylanwadu ar benderfyniadau'r UE drwy Lywodraeth y DU. Yn ogystal â chanolbwyntio ar gyflawni'r Cyfarwydddebau Effeithlonrwydd Ynni, prisio ynni a lleihau'r risg o ollyngiadau carbon o ddiwydiannau ynni-ddwys, mae Llywodraeth Cymru'n datblygu gwasanaeth cyngor a chymorth cwbl integredig ar effeithlonrwydd adnoddau. Bydd hwn ar gael i gwsmeriaid domestig a masnachol.

Caiff cofrestr o fuddiannau cymunedol ac economaidd mentrau ynni'r gwynt ar y tir ei lansio gan Lywodraeth Cymru a disgwylir iddi roi mwy o dryloywder ynglŷn â buddiannau prosiectau ynni'r gwynt ar y tir yng Nghymru.

Nodwyd bod ynni'r môr yn flaenoriaeth o ran defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn 2014-2020. Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu ymhellach ei dulliau o ysgogi arloesedd a datblygiadau ym maes Ynni'r Môr yn ogystal â 'Byw yn Glyfar'. Bydd 'Byw yn Glyfar' yn ceisio cynyddu gweithgarwch cynhyrchu gwasgaredig ac integreiddio technolegau adeiladu newydd ar raddfa gymunedol. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gydag Ystad y Goron i hyrwyddo ardaloedd arddangos ar gyfer dyfeisiau morol a gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol er mwyn cefnogi sector Ynni'r Môr sy'n datblygu yng Nghymru. Bydd Cymru'n cynnal cyfres o drafodaethau â Llydaw ynglŷn â'r posibilrwydd o gydweithio er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r ddwy ohonynt o ran ynni'r môr.

Rydym yn gweithio gydag aelodau o Bwyllgor Cymdeithasol ac Economaidd Ewrop (PCEE) i drefnu ymweliad â Chymru er mwyn cynnal ymchwiliad i gynnydd y Gyfarwydddeb Ynni Adnewyddadwy. Bydd yr ymweliad, rhwng 5 a 7 Mai, yn cynnwys taith o gwmpas prosiectau ynni adnewyddadwy a gwrandawriad a fydd yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid.

Mae buddsoddiadau sylweddol i'w gwneud hefyd ym maes effeithlonrwydd ynni a'r economi carbon isel drwy raglenni newydd Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 a Horizon 2020. Bydd WEFO yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cyfranogaeth, cyfleoedd a buddsoddiadau yn y maes hwn yn cael eu cynyddu i'r eithaf.

Newid yn yr Hinsawdd

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio i gefnogi gwaith ledled yr UE sy'n ychwanegu at ymrwymïadau rhyngwladol i leihau allyriadau, ac i gyflawni rhaglenni

sy'n helpu i sicrhau ein bod yn rheoli canlyniadau newid yn yr hinsawdd yn effeithiol yn ystod y degawdau i ddod.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at strategaeth ehangach yr UE ar leihau allyriadau ac addasu i newid yn yr hinsawdd drwy weithredu Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at dargedau Ewrop 2020 ar wella effeithlonrwydd ynni, lleihau allyriadau a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy.

Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn nodi dull strategol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd a chaiff yr ymrwymadau allweddol i leihau nwyon tŷ gwydr a chefnogi camau i addasu'n effeithiol i newid yn yr hinsawdd eu hatgyfnerthu ymhellach yn y Rhaglen Lywodraethu.

Dau brif darged Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau yw'r gostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau mewn meysydd datganoledig a tharged ehangach i sicrhau gostyngiad o 40% mewn allyriadau erbyn 2020. Mae'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd, ynghyd â'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, yn cynnwys ymrwymiad i lunio adroddiad blynyddol ar gynnydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2013 ar y Newid yn yr Hinsawdd ar 10 Rhagfyr. Gellir gweld copi o'r adroddiad yn:

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/2013-annual-report/?skip=1&lang=cy>

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd gennym yn y Rhaglen Lywodraethu a'n Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd ac yn crynhoi'r camau rydym wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd. Mae'n dangos inni wedi cynnydd cadarnhaol. Ar gyfer ein targed o ostyngiad blynyddol o 3% mewn allyriadau mewn meysydd datganoledig, rydym wedi rhagori ar y targed drwy sicrhau gostyngiad o 10.1%, ac ar gyfer ein targed ehangach i sicrhau gostyngiad o 40% yn ein holl allyriadau erbyn 2020, dengys yr adroddiad bod allyriadau wedi gostwng 20.6% o gymharu â llinell sylfaen 1990.

Mae'r adroddiad hefyd yn dadansoddi'r allyriadau ac yn nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fesul sector allweddol a gwelir bod bron pob un ohonynt wedi lleihau eu hallyriadau'n sylweddol a bod y sector cyhoeddus yn enwedig yn chwarae rhan flaenllaw drwy sicrhau'r gostyngiad canrannol mwyaf mewn allyriadau.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y canlynol:

- Llwyddiant Arbed, sef cynllun ynni strategol Llywodraeth Cymru a ariennir gan yr UE, a oedd, ynghyd â'n cynllun sgrapio boeleri a'r rhaglen effeithlonrwydd ynni cartref, wedi'i gwneud hi'n haws ac yn rhatach i wresogi 25,000 o gartrefi yng Nghymru yn 2010-11.

- Y gwaith i ddatblygu menter y Ganolfan Teithio Cynaliadwy, sy'n darparu rhwydweithiau trafndiaeth mwy integredig gan hybu iechyd a lles hefyd.
- Y cymorth a'r cyngor parhaus y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i fusnesau ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni a chyfleoedd carbon isel i BBaCHau, a'i gwaith i arwain camau gweithredu ar draws y sector cyhoeddus er mwyn lleihau allyriadau.
- Rhoi cynlluniau ar waith i leihau allyriadau drwy reoli gwastraff yn well.
- Y canllawiau newydd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar addasu i newid yn yr hinsawdd a strategaeth genedlaethol newydd ar reoli llifogydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i ganolbwyntio ar gyflawni drwy weithio ar draws sector, gweithio gyda'n partneriaid a pharhau i annog unigolion, cymunedau a busnesau yng Nghymru i wneud eu rhan er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mynychodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd negodiadau COP19 Pwylgor Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd yn Warsaw, gan weithio'n agos gyda dirprwyathau'r DU a'r UE a rhwydweithiau nrg4sd (y Rhwydwaith Llywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy) a'r Grŵp Hinsawdd.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar ddeddfwriaeth yr UE ar Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio, allyriadau morgludiant a diwygio'r Cynllun Masnachu Allyriadau.

Rhaglen Waith 2014

Mae Adroddiad Blynyddol 2013 ar y Newid yn yr Hinsawdd yn nodi bod cynnydd da wedi'i wneud yng Nghymru, ond mae'n dangos hefyd fod angen gwneud rhagor i gyflawni ein targedau tymor hwy, yn enwedig o ystyried twf economaidd.

Mae Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd drwy gyfeirio at y dystiolaeth o adroddiad diweddar y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) a'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU, sy'n nodi bod y ddadl dros barhau i weithredu o ran yr hinsawdd yn glir.

Felly, byddwn yn ailwampio ein polisi ar newid yn yr hinsawdd yn ystod 2014 er mwyn dangos sut mae camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn cyd-fynd â'n hymdrechion i gyflawni blaenoriaethau ehangach ein Llywodraeth o ran swyddi, twf cynaliadwy a threchu tlodi. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud popeth a allwn i gyflawni ein targedau i leihau allyriadau, gwella ein gallu i wrthsefyll tywydd eithafol, lleihau'r risgiau cymdeithasol sydd ynghlwm wrth newid yn yr hinsawdd ac, yn y bôn, sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd sylweddol ar gyfer twf gwyrdd sydd ar gael ledled y llywodraeth ac ar y cyd â'n partneriaid.

Mae canolbwyntio mwy ar dwf gwyrdd yn hollbwysig i'n huchelgeisiau ar gyfer Cymru. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Newid yn yr Hinsawdd yn tanlinellu graddau'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd eisoes a sut rydym yn defnyddio cyfleoedd ehangach, fel arian Ewropeaidd, i gefnogi ein camau gweithredu. Mae ymrwymiad yr UE y caiff o leiaf 20% o'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol ei ddyrannu i gamau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn rhoi hyd yn oed mwy o gyfle i fynd ymhellach ac yn

tanlinellu'r ffaith bod cyd-destun cyfan strategaeth twf Ewrop 2020 eisoes yn seiliedig ar newid yn yr hinsawdd.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei ystyried gan bob Adran o fewn Llywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu a chyflawni polisiau, yn enwedig o ran gwella'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol. Mae tystiolaeth a dealltwriaeth wyddonol, fel y nodir yn adroddiad yr IPCC, yn dangos ei bod yn hollbwysig i ni barhau â'n gwaith i liniaru'r newid yn yr hinsawdd er mwyn osgoi senarios difrifol o ran newid yn yr hinsawdd a newidiadau amgylcheddol a all fod yn ddiwrthdro.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn nodi bod gweithredu i wneud addasiadau i newidiadau amgylcheddol ac ymateb i dywydd eithafol yn bwysig i ddyfodol Cymru a bod hyn yn gyfle yn ogystal â bygythiad. Felly, mae ein hymrwymiad i ddatblygu Cynlluniau Addasu Sectoraidd a sicrhau bod y sectorau Busnes a Thwristiaeth, Iechyd, Cymunedau, yr Amgylchedd Naturiol a Seilwaith yn addasu i'n hinsawdd sy'n newid ac yn gwella gallu i wrthsefyll effeithiau'r hinsawdd yn y dyfodol, yn flaenoriaeth allweddol wrth i ni ailwampio ein polisi i'r dyfodol.

Amlinellir blaenoriaethau a chyfeiriad polisi'r Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd i'r dyfodol yn y papur polisi Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Hydref 2013.

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/resilientfuture/?skip=1&lang=cy>. Mae'n cydnabod mai newid yn yr hinsawdd yw un o'r prif heriau sy'n ein hwynebu a bod angen gweithredu mewn ffordd drawsbynciol. Bydd camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn rhan o'r holl flaenoriaethau a bennir ar gyfer yr Adran - twf gwyrdd, effeithlonrwydd adnoddau, cydnerthedd a threchgu tlodi.

Hefyd, mae'r papur yn nodi ein bod yn ceisio integreiddio'r ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli fel y gallant greu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor. Mae hyn yn elfen bwysig o'r ffordd y byddwn yn mynd i'r afael â'n polisi ar newid yn yr hinsawdd ond mae hefyd yn enghraifft o sut rydym yn ceisio integreiddio polisiau â meysydd portffolio eraill.

Mae'r datganiad hefyd yn dangos sut rydym eisoes, fel Llywodraeth, yn mynd gam ymhellach drwy ddefnyddio'r pwerau deddfwriaethol newydd sydd gan Gymru i ysgogi camau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd nad oeddent ar gael pan ddatblygwyd y strategaeth bresennol ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r UE ar fframwaith newid yn yr hinsawdd ac ynni arfaethedig ar gyfer 2030. Cyfarfu'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd â Dirprwy Bennaeth Cabinet y Comisiynydd Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd, Connie Hedegaard, ym mis Medi 2013 i drafod hwn cyn iddo gael ei gyhoeddi ac ers hynny, mae wedi mynd i gyfarfod Cyngor yr Amgylchedd (Mawrth 2014) lle cafodd Gweinidogion gyfle i rannu eu barn am y tro cyntaf ar bapur gwyn y Comisiwn.

Yr Amgylchedd

Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau'r UE er mwyn sicrhau bod amgylchedd Cymru yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisiau a sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau amgylcheddol.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mynychodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ddau o gyfarfodydd Cyngor yr Amgylchedd yn 2013 a chafodd drafodaethau â Chomisiynydd yr Amgylchedd, Janez Potočnik, yng Ngŵyl y Gelli ac ar ymylon cyfarfodydd Cyngor yr Amgylchedd.

Yn ystod ail hanner 2013, secondiodd Llywodraeth Cymru swyddog i weithio ar Dîm yr Amgylchedd Llywyddiaeth Lithwania o Gyngor yr UE.

Mae swyddogion wedi gweithio gyda Llywodraeth y DU a sefydliadau'r UE ar amrywiaeth o faterion UE deddfwriaethol ac anneddfwriaethol, gan gynnwys cynllunio adnoddau naturiol; rheoliad LIFE ar arian yr UE; ailgylchu llongau; rhywogaethau goresgynnol estron; cludo gwastraff yn anghyfreithlon; llygredd sŵn o gerbydau; asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd; llifogydd; cynefinoedd; allyriadau diwydiannol; dŵr gwastraff trefol; polisi gwastraff; effeithlonrwydd adnoddau; a bagiau plastig.

Er enghraifft, gwnaeth uwch swyddogion yr amgylchedd o Lywodraeth Cymru friffio swyddogion o'r Comisiwn ar ddull Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol, y broses o greu Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ymgynghoriad ar ein Bil yr Amgylchedd.

Ymwelodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Amgylchedd y Comisiwn Ewropeaidd â Chymru i annerch cynhadledd Llywodraeth Cymru ar adnoddau naturiol.

Parhaodd Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cyfarwyddbau'r UE yn cael eu trosi i ddeddfwriaeth y DU yn brydlon a'u bod yn cael eu gweithredu'n llawn. Enghraifft o hyn yw'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol, a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2013 ac sy'n ail-gastio saith Cyfarwydddeb hŷn ac yn pennu terfynau diwygiedig ar gyfer allyriadau i'r aer gan fathau amrywiol o osodiadau diwydiannol. Troswyd y Gyfarwydddeb hon drwy Reoliadau i Gymru a Lloegr.

Rhaglen Waith 2014

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar ei Bil yr Amgylchedd a'i hymagwedd at adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar ecosystemau. Bydd y Gweinidog a'i swyddogion yn chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo'r mentrau hyn a mentrau eraill drwy fynd i Gyngor yr Amgylchedd yr UE neu fforymau eraill a thrwy drafod â'i Gyd-Weinidogion yn y DU a'r UE, Comisiynwyr ac Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â chydweithwyr o weinyddiaethau eraill y DU, yn parhau i weithio ar faterion a gafodd eu trosglwyddo gan Lywyddiaeth Lithwania i Lywyddiaeth Groeg, fel deddfwriaeth ar fagiau plastig; rhywogaethau goresgynnol estron; neu Becyn Ansawdd Aer yr UE a ryddhawyd yn ddiweddar a byddant yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod gofynion yn cael eu bodloni'n llawn.

Iechyd

Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a sefydliadau'r UE er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth iechyd yn adlewyrchu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n gynyddol wahanol yng Nghymru. Ar gyfer rhaglenni ariannu, byddwn yn cydweithio i hwyluso cynigion gan sefydliadau yn y maes iechyd yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2013

Aeth Cymru a gwledydd eraill y Deyrnas Unedig ati i drosi'r Gyfarwydddeb ar gymhwyso hawliau cleifion mewn gofal iechyd trawsffiniol mewn cyfraith genedlaethol.

Cyfrannodd Cymru at gais Llywodraeth y DU am dystiolaeth ar yr adolygiad o Gydbwysedd Cymwyseddau rhwng yr UE a'r DU mewn perthynas ag iechyd. Yn yr ymateb, nodwyd mai'r farn gyffredinol oedd bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i aelodaeth lawn y DU o'r UE, a nodwyd bod enghreifftiau da ym maes iechyd lle bo gwaith yr UE wedi bod yn ddefnyddiol i Gymru. Roedd y rhain yn cynnwys hwyluso gwaith gyda gwledydd eraill yr UE a chreu cyfleoedd i Gymru rannu â rhannau eraill o Ewrop, y gwersi a ddysgwyd wrth ymdrin â materion heriol a chynnydd o fewn ac ar draws Aelod-wladwriaethau. Un maes arall lle gwelir enghreifftiau o gydweithredu yw ym maes datblygu ffynonellau data newydd er mwyn dangos problemau a pherfformiad mewn gwledydd amrywiol. Mynegwyd pryder na ddylai cymhwysedd yr UE gael ei ymestyn mewn ffyrdd annisgwyl na beichus.

Roedd naws ryngwladol i Gynhadledd Iechyd Cyhoeddus blynyddol Cymru yn 2013 wrth i'r digwyddiad gael ei gydgysylltu â chyfarfod blynyddol Rhwydwaith Rhanbarthau er Iechyd Ewropeaidd WHO, sy'n cynnwys rhanbarthau o fewn yr UE a'r tu allan.

Gan weithio gyda gwledydd eraill y Deyrnas Unedig, helpodd Cymru i lunio Strategaeth y Deyrnas Unedig ar Glefydau Prin mewn ymateb i Argymhelliad yr Undeb Ewropeaidd ar Glefydau Prin.

Roedd Llywodraeth Cymru yn bartner cenedlaethol yn Equity Action, sef Cynllun Cydweithredol ar Anghydraddoldebau Iechyd (2011-2014) a ariannwyd gan yr UE. Prosiect pan-Ewropeaidd oedd hwn oedd yn ceisio nodi arfer da, rhannu gwersi a ddysgwyd a datblygu dull aml-lefel o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Canolbwyntiodd y prosiect ar ddatblygu gallu'r holl Aelod-wladwriaethau ac ar bedair prif ffrwd waith: adnoddau, rhanbarthau, gwybodaeth a rhanddeiliaid.

Roedd Llywodraeth Cymru yn bartner cenedlaethol mewn dau o'r ffyrddau gwaith hyn - adnoddau a rhanbarthau. Nod y Ffrwd Waith ar Adnoddau oedd hyrwyddo pwyslais ar gydraddoldeb iechyd wrth lunio polisïau a chafodd cyfraniad Cymru ei gyflawni gan Gyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cymru a lansiodd brosiect i asesu'r effaith y byddai cynigion i ddeddfu dros gynllun cofrestru ac achredu gorfodol i landlordiaid yn y sector preifat yn ei chael ar iechyd.

Nod y Ffrwd Waith ar Rhanbarthau oedd datblygu gallu rhanbarthol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a rhannu profiadau, gwersi a ddysgwyd a chynnydd o fewn ac ar draws Aelod-wladwriaethau gan gyfeirio'n benodol at Gronfeydd

Strwythurol yr UE. Ar gyfer y pecyn gwaith hwn, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda dau bartner rhanbarthol - Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Rhaglen Waith 2014

Cynrychiolodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y DU yng nghynhadledd olaf Equity Action, a gynhaliwyd ym mis Ionawr.

Gan edrych i'r dyfodol, yn 2014, bydd Llywodraeth Cymru yn llunio ei Chynllun Gweithredu mewn ymateb i Argymhelliad yr UE ar Glefydau Prin a Strategaeth Clefydau Prin y DU.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn awyddus i gymryd rhan mewn gwaith ar lefel yr UE yn y dyfodol ar anghydraddoldebau iechyd ar ôl i Gynllun Cydweithredol yr UE ar Anghydraddoldebau Iechyd ddod i ben.

Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn annerch Uwchgynhadledd yr UE ar Glefydau Cronig ym Mrwsel ar 4 Ebrill pan fydd hefyd yn cyfarfod â'r Comisiynydd Iechyd Ewropeaidd, Tonio Borg, a Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol OECD, Yves Leterme.

Cyflawni rhwymedigaethau'r UE

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ac yn cymhwyso cyfraith yr UE yng Nghymru sy'n ymwneud â chyfrifoldebau a ddatganolwyd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, fel cynrychiolydd yr Aelod-wladwriaeth, i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth a delio ag unrhyw dor-cyfraith posibl.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd, a hynny ar ein pen ein hun ac ar y cyd â Lloegr. Ym mis Hydref 2013, darparodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant mewnol ar ddeddfwriaeth yr UE i swyddogion o Lywodraeth Cymru a gwahoddwyd swyddogion o'r Comisiwn Ewropeaidd ac Adrannau Whitehall i ddod i roi cyflwyniadau a chyfarfod â swyddogion o Lywodraeth Cymru er mwyn trafod ffyrdd effeithiol o gydweithio. Edrychodd y cwrs ar bob agwedd ar ddeddfwriaeth yr UE, o ddylanwadu ar bolisi i ymdrin â throsi ac achosion o dor-cyfraith.

Rydym wedi gweithio gyda swyddogion yn Adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Adran Drafnidiaeth (DfT), yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS), yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC), yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) ac eraill, ar negodi deddfwriaeth derfynol yr UE a throsi'r ddeddfwriaeth wedi hynny mewn llawer o feysydd polisi gwahanol ar y cyd â Lloegr.

Rhaglen Waith 2014

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth y DU i ymateb i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â Phrosiect Pilot ac achosion o dor-cyfraith. Mae hon yn broses barhaus ac rydym yn chwarae rhan lawn ynddi er mwyn sicrhau bod y perygl o dor-cyfraith yn cael ei gyfyngu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd ar holl feysydd deddfwriaeth yr UE. Byddwn yn ceisio sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei throsi'n gywir ac yn brydlon yn unol â rheolau'r UE..

Codi proffil Cymru yn yr UE a hyrwyddo ymgysylltiad â'r UE yng Nghymru

Byddwn yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru fel cenedl sy'n falch o'i diwylliant a'i chyflawniadau ac fel partner dynamig, brwdfrydig a blaengar.

Mae hwn yn ymrwymiad cyffredinol a gyflawnwyd fel y nodir yn yr ymrwymïadau unigol isod.

Codi proffil Cymru drwy ragoriaeth a rhannu gwersi a ddysgwyd

Byddwn yn hyrwyddo camau i rannu arfer gorau o Gymru a byddwn yn codi ein proffil gyda'r UE drwy ein rhagoriaeth a'n harbenigedd.

Adroddiad Blynyddol 2013

Mae gan Gymru hanes ardderchog o gyflawni drwy'r Cronfeydd Strwythurol, ac mae wedi cael mwy o lwyddiant nag unrhyw ranbarth arall yn y DU gan ennill gwobr bwysig Rhanbarthau Rhagorol yr UE a thair gwobr RegioStars yr UE dros y blynyddoedd diwethaf am brosiectau arfer gorau ym maes datblygu rhanbarthol. Mae'r UE wedi dewis dau brosiect o Gymru ar gyfer rownd derfynol Gwobrau RegioStars 2014 - BEACON a Quadrant Transport Interchange - a chaiff yr enillwyr eu cyhoeddi gan y Comisiynydd Ewropeaidd dros Bolisi Rhanbarthol, Johannes Hahn, ar 31 Mawrth 2014.

Mae cynrychiolwyr o sector Addysg Uwch Cymru hefyd wedi bod yn rhan o'r Fforwm Prifysgolion-Busnesau, sy'n dwyn ynghyd sefydliadau addysg uwch, cwmnïau, cymdeithasau busnes, cyfryngwyr ac awdurdodau cyhoeddus, gan roi llwyfan cyffredin ar lefel Ewropeaidd iddynt gynnal trafodaethau, rhwydweithio a chyfnewid arfer da. Hefyd, mae academyddion o'r sector Addysg Uwch yng Nghymru wedi bod yn cynghori'r Comisiwn Ewropeaidd ar arbenigo craff gyda Phrifysgol Caerdydd yn cydlynu prosiect FP7 ar werthuso strategaethau arbenigo craff.

Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ac academyddion o'r sector Addysg Uwch wedi bod yn werthuswyr ar gyfer FP7 a'r Rhaglen Arloesi a Chystadleurwydd.

Hefyd, dynodwyd Cymru yn safle cyfeirio ar gyfer heneiddio'n egnïol ac yn iach fel rhan o'r Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd ar Heneiddio'n Egnïol ac yn iach, gan ennill y wobr uchaf o dair seren, a llofnododd Partneriaeth Cymru, a arweinir gan y Comisiynydd Pobl Hŷn, ymrwymiad i'r Bartneriaeth.

Rhaglen Waith 2014

Bydd swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau yn cynrychioli'r DU ar ddau o chwe grŵp arbenigol yr UE ar addysg a hyfforddiant. Y grwpiau dylanwadol hyn yw'r prif fforymau i ddylanwadu ar bolisiâu'r UE ym maes addysg a hyfforddiant a'r rhaglen waith flynyddol Erasmus Plus (Erasmus +).

Bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn ystyried y manteision o ymuno â'r Gynghrair Prentisiaethau Ewropeaidd a bydd yn gwneud cyhoeddiad yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o'i gwaith ar heneiddio'n egnïol ac yn iach, bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel, yn trefnu digwyddiad ym Mrwsel fel rhan o Ddiwrnodau Agored y Comisiwn Ewropeaidd/Pwyllgor y Rhanbarthau ym mis Hydref.

Hyrwyddo Cymru ym Mrwsel

Byddwn yn parhau i godi proffil Cymru ym Mrwsel drwy ddigwyddiadau polisi a diwylliannol sy'n berthnasol i'n Rhaglen Lywodraethu a'n mentrau diwylliannol pwysig.

Adroddiad Blynyddol 2013

O ddiwedd mis Ionawr tan ganol mis Mawrth, cynhaliodd swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru arddangosfa o'r enw "Gwneud printiau yng Nghymru", mewn partneriaeth â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru ac Y Lle Print, sef menter gymdeithasol o Gymru. Cafodd yr arddangosfa gryn dipyn o sylw a bu'n ysgogiad i gydweithredu â phartneriaid yng Ngwlad Belg a'r Iseldiroedd. Ar ddiwedd mis Chwefror, cynhaliwyd y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi blynyddol, lle cafodd y bwydydd a'r diodydd gorau o Gymru eu gweini gydag adloniant gan fyfyrwyr o Goleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru.

Ym mis Mawrth, trefnodd swyddfa'r UE, mewn partneriaeth â'r British Council a swyddfeydd Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ym Mrwsel, ddigwyddiad llenyddol ar "lenyddiaeth genedlaethol mewn byd byd-eang", gyda'r awdur Christopher Meredith yn cynrychioli Cymru.

Ym mis Hydref, cynhaliodd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Llysoenhadaeth y DU i Wlad Belg a Derek Vaughan ASE, dderbyniad i ddynodi'r gêm ragbrofol rhwng Gwlad Belg a Chymru ar gyfer Cwpan y Byd FIFA. Ar 5 Chwefror, cynhaliodd swyddfa'r UE dderbyniad â Dirprwy Lysgennad y DU i'r UE, Shan Morgan, gyda Bryn Terfel, a berfformiodd y diwrnod canlynol. Denodd y digwyddiad gynulleidfa o Sefydliadau'r UE, gan gynnwys sawl Llysgennad, a'r gymuned fusnes. Mae cydweithwyr masnach a buddsoddi wrthi'n mynd ar drywydd y cysylltiadau a wnaed yn ystod y digwyddiad a byddant yn trefnu digwyddiad dilynol gyda'r Dirprwy Gynrychiolydd Parhaol. Rhwng 5 a 6 Chwefror, cafodd swyddfa'r UE ymweliad deuddydd gan Syr Deian Hopkin, cynghorydd y Prif Weinidog ar y digwyddiadau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, a aeth i safle'r gofeb a gaiff ei chodi i'r Cymry yn Fflandrys a chyfarfod ag amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o sefydliadau o Wlad Belg a Phrydain.

Rhaglen Waith 2014

Ar 5 Chwefror, cyd-drefnodd swyddfa'r UE dderbyniad â Dirprwy Lysgennad y DU i'r UE, Shan Morgan, gyda Bryn Terfel, a berfformiodd ym Mrwsel y diwrnod canlynol. Denodd y digwyddiad unigolion o sefydliadau'r UE, Pencadlys NATO (cyn yr Uwchgynhadledd yng Nghymru ym mis Medi), gan gynnwys sawl Llysgennad, a'r cymunedau celfyddydol a busnes ehangach.

Rhwng 5 a 6 Chwefror, cafodd swyddfa'r UE ymweliad deuddydd gan Syr Deian Hopkin, cynghorydd y Prif Weinidog ar y digwyddiadau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, a aeth i Langemark yn Fflandrys, sef safle'r gofeb a gaiff ei chodi i'r Cymry a wasanaethodd yn y rhyfel, a chyfarfod ag amrywiaeth eang o gynrychiolwyr o sefydliadau o Wlad Belg a Phrydain.

Ar y thema llenyddiaeth, Llywodraeth Cymru oedd un o bartneriaid Ffair Lyfrau Brwsel 2014 rhwng 22 a 24 Chwefror a drefnwyd gan y DU ac ar yr achlysur hwn, yr awduron o Gymru oedd Patrick McGuinness a Sian Melangell Dafydd.

Cafodd y derbyniad amser cinio i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi 2014 ei gynnal gan y Gweinidog Cyllid ar 6 Mawrth. Mynychwyd y derbyniad gan bobl o sefydliadau'r UE, Pencadlys NATO a Langemark ac arddangoswyd bwydydd a diodydd o Gymru a dathlwyd Canmlwyddiant Dylan Thomas hefyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi stondin Cymru yn yr Arddangosfa Bwyd y Môr ryngwladol a gynhelir rhwng 5 ac 8 Mai a bwriedir cynnal derbyniad ar 7 Mai.

Bydd swyddfa Brwsel yn cefnogi'r digwyddiad i ddadorchuddio'r gofeb yn Langemark, fel y nodwyd uchod, ar 16 Awst y bydd y Prif Weinidog yn cymryd rhan ynddynt.

Hyrwyddo Cymru drwy dwristiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid ac yn gweithio i ddenu amrywiaeth ehangach ac amlach o wasanaethau awyr sy'n hedfan i mewn ac allan o Gymru.

Adroddiad Blynyddol 2013

Caiff ymgyrch farchnata Croeso Cymru 2013/2014 ei hariannu'n rhannol drwy raglen Amgylchedd ar gyfer Twf (E4G), gyda chyllid cyfatebol gan Croeso Cymru a'i bartneriaid: Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

Mae Maes Awyr Caerdydd yn fynedfa hollbwysig i Gymru ar gyfer teithwyr busnes, twristiaid a theithwyr yn gyffredinol. Yn ystod gwanwyn 2013, prynodd Llywodraeth Cymru faes awyr Caerdydd er mwyn diogelu ei dyfodol. Mae'n hollbwysig i ddatblygiad economaidd Cymru bod gennym gysylltiadau rhyngwladol cryf i mewn ac allan o Gymru yn ogystal â mynedfa groesawgar i dwristiaid.

Mae'r penderfyniad i gaffael asedau a gweithrediadau'r maes awyr am bris o tua £52 miliwn yn cefnogi'r amcanion strategol hyn. Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu'r maes awyr fel seilwaith economaidd pwysig yng Nghymru a datblygu gwasanaethau o safon uchel i deithwyr.

Y blaenoriaethau allweddol wrth brynu'r maes awyr yw:

- gweithredu i safon uchel, gan roi'r profiadau gorau posibl i deithwyr a chwmnïau hedfan
- creu amgylchedd sy'n annog twf cwmnïau hedfan a phartneriaid masnachol

- manteisio ar y cyfle er budd Cymru, yr economi a busnes
- rheoli effaith amgylcheddol y maes awyr
- sicrhau sefydlogrwydd ariannol y maes awyr
- gwella cysylltiadau â Chymru.

Caiff y maes awyr ei redeg ar hyd braich gan Cardiff International Airport Ltd (CIAL), sy'n gyfrifol am holl weithgareddau'r maes awyr, gan gynnwys gweithrediadau, datblygu llwybrau a gwella cyfleusterau'r maes awyr.

Mae gan CIAL ei Fwrdd ei hun, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Rowe-Beddoe ac mae'n cynnwys pum Cyfarwyddwr Anweithredol a phedwar Cyfarwyddwr Gweithredol. Mae gan y Bwrdd y sgiliau a'r profiad priodol i helpu i ddatblygu Maes Awyr Caerdydd.

Roedd cynllun busnes y Maes Awyr ar gyfer 2013/14 yn cynnwys cynlluniau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf a gwelliannau technegol yn y maes awyr, yn cynnwys y derfynfa, ardaloedd diogelwch, ffyrdd mynediad a meysydd parcio, yn ogystal â denu cwmnïau hedfan newydd i'r maes awyr. Nod yr holl welliannau yw rhoi profiad gwell i ddefnyddwyr y maes awyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo benthyciad masnachol o £10m er mwyn galluogi CIAL i gyflawni'r cynllun busnes a'r gwelliannau.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda CIAL i farchnata a hyrwyddo Cymru mewn cyrchfannau allweddol a chylchgronau awyrennau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda CIAL i hyrwyddo Cymru i gwsmeriaid cwmnïau hedfan allweddol a sicrhau bod gweithgarwch marchnata Croeso Cymru yn cael ei dargedu mewn rhanbarthau a dinasoedd priodol lle mae'r cwmnïau hyn yn gweithredu.

Yn ogystal, aeth Croeso Cymru a CIAL i Gynhadledd Llwybrau'r Byd 2013, yn ogystal ag arddangos yno, er mwyn codi proffil Cymru a chodi ymwybyddiaeth ohoni fel cyrchfan a phwysleisio bod CIAL yn awyddus i ddatblygu maes awyr o ansawdd a chyrchfannau deniadol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i ddarparu mynediad da i Faes Awyr Caerdydd a Pharc Busnes Awyrofod Sain Tathan, a elwir ar y cyd yn Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd. Mae hyn yn cynnwys:

- Parhau i ariannu gwasanaeth bws gwennol Maes Awyr Caerdydd sy'n rhedeg rhwng gorsaf drenau'r Rhws a'r maes awyr.
- Cyflwyno gwasanaeth bws cyflym newydd rhwng Canol Dinas Caerdydd a'r Maes Awyr ar 1 Awst 2013. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhedeg bob 20 munud drwy'r dydd.
- Adolygu'r ffyrdd mynediad i Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys prosiect gwerth £3m i sythu'r ffyrdd..

Rhaglen Waith 2014

Yn ystod 2014, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Maes Awyr Caerdydd i gefnogi ei gynllun busnes arfaethedig a'i waith datblygu, gan gynnwys ffyrdd mynediad i'r Maes Awyr a'r Ardal Fenter.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i sicrhau rhagor o arian gan yr UE ar gyfer cynlluniau twristiaeth a all gefnogi twf economaidd a swyddi yng Nghymru.

Cysylltiadau addysgol a diwylliannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n deillio o raglenni'r UE ar ddysgu gydol oes, ieuenctid, diwylliant a'r diwydiannau creadigol gyda'r nod o gynyddu cyfranogaeth yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2013

Cymerodd Llywodraeth Cymru ran yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cyngori ar y Rhaglen Dysgu Gydol Oes.

Cafodd y Gweinidog Addysg gyfarfod cadarnhaol hefyd â'r British Council i drafod sut i gynyddu'r cyfleoedd a gynigir drwy'r rhaglen Erasmus Plus - olynnydd y Rhaglen Dysgu Gydol Oes - sy'n darparu arian ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ieuenctid gan ganolbwyntio ar gyfleoedd astudio rhyngwladol, gweithio, hyfforddi, addysgu a gwirfoddoli.

Trafododd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg raglen Erasmus Plus gyda Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Diwylliant a galwodd am fwy o gymorth i brosiectau ar ieithoedd llai eu defnydd ac ail-gadarnhaodd ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau y bydd hyd yn oed fwy o bobl ifanc yn cael budd o'r rhaglen yn y dyfodol.

Yn ogystal, cytunwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu ac yn arwain Desg Ewrop Greadigol i Gymru, a fydd yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r rhaglen Ewrop Greadigol newydd, a all helpu'r sectorau diwylliannol a chreadigol i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, datblygu sgiliau ar gyfer yr oes ddigidol a diogelu amrywiaeth diwylliannol ac ieithyddol.

Rhaglen Waith 2014

O fis Ebrill, bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r rhaglen newydd Ewrop Greadigol drwy ei Desg Ewrop Greadigol i Gymru, a fydd yn rhoi cyngor i geiswyr yng Nghymru ac yn trefnu digwyddiadau gwybodaeth wedi'u teilwra ar gyfer y sectorau clyweledol a diwylliannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ym mwrdd newydd Erasmus Plus, sy'n rheoli Rhaglen Waith yr Asiantaeth Genedlaethol dan gontract, a bydd yn cymryd rhan yn y lansiad swyddogol yn y DU ym mis Ebrill. Bydd hefyd yn helpu asiantaeth genedlaethol newydd Erasmus Plus, sef y British Council, i gynyddu lefelau cyfranogaeth yn y rhaglen yng Nghymru.

Hyrwyddo ymgysylltiad â'r UE yng Nghymru

Byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r UE yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2013

Gwnaethom drefnu cyfres o ddigwyddiadau fel rhan o'n hymdrechion i ymgysylltu â sefydliadau'r gymdeithas sifil ac i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i randdeiliaid helpu i lunio polisiau'r UE. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynhadledd Fforwm yr Iwerydd yng Nghaerdydd ym mis Ionawr, ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Forol ar gyfer Ardal Cefnfor yr Iwerydd, gyda phedair o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE sydd ar Gefnfor yr Iwerydd (Ffrainc, Sbaen, Portiwgal ac Iwerddon)
- seminar ar Raglen Ddiwygio Genedlaethol 2013 ym mis Mawrth (ar y cyd â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru)
- digwyddiad Cyngor Ffug yr UE, yn cynnwys myfyrwyr o 28 o ysgolion a cholegau ledled Cymru ac un ysgol o Latfia, lle trafodwyd materion amserol yn ymwneud â pholisiau'r UE
- digwyddiad Fforwm Cymru ar Ewrop ym mis Tachwedd er mwyn lansio rhaglen Horizon 2020 yng Nghymru.

Cafodd Cymru hefyd ymweliad gan Shan Morgan, Dirprwy Gynrychiolydd Parhaol y DU i'r UE, ac yn ystod ei hymweliad cafodd gyfle i gyfarfod â'r Ysgrifennydd Parhaol, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a mynychodd gyfarfodydd dwyochrog â Chyfarwyddwyr Cyffredinol ac uwch swyddogion.

Rhaglen Waith 2014

Cafodd y Gweinidog Cyllid ymweliad gan y Comisiynydd László Andor ym mis Chwefror a oedd am weld yn uniongyrchol yr effaith yr oedd y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yn ei chael ar helpu pobl i mewn i waith a hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc.

Ar ddechrau mis Mawrth, trefnodd Llywodraeth Cymru seminar, a agorwyd gan y Gweinidog Cyllid, ar Raglen Ddiwygio Genedlaethol 2014 ar y cyd â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

Byddwn yn trefnu ein Cyngor Ffug yr UE blynyddol ym mis Medi a seminar ar ffyrdd llwyddiannus o fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yn ddiweddarach yn yr hydref.

Dylanwadu ar bolisiau'r UE

Cymru a Llywodraeth y DU

Byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddylanwadu ar y polisiau a ddatblygir gan yr UE.

Adroddiad Blynyddol 2013

Prif ffocws y cysylltiadau â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill oedd y negodiadau ar setliad cyffredinol Cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020. Roedd hyn yn cynnwys trafod y meysydd polisi cysylltiedig (Cronfeydd Strwythurol, y PAC, Horizon 2020 a Chyfleuster Cysylltu Ewrop) a'r Rheoliadau cysylltiedig yn

ogystal â pharatoi i weithredu'r rhaglenni ar gyfer 2014-2020. Amlinellwyd y gwaith hwn o dan yr ymrwymïadau polisi unigol uchod.

Unwaith eto, fel y nodir uchod, gweithiodd Gweinidogion Cymru gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar y materion hyn, yn ddwyochrog a thrwy Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop (JMC(E)), sy'n cynnwys Gweinidogion o'r pedair gweinyddiaeth. Llwyddwyd i ymgysylltu yn ystod ac ar ymylon cyfarfodydd y Cyngor hefyd.

Ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd â'u cydweithwyr yn y gweinyddiaethau eraill ar y meysydd polisi drwy gydol y flwyddyn, a hynny ar y cyd, er enghraifft drwy fframwaith y JMC(E) a Grwpiau Llywio ar feysydd polisi unigol, ac yn ddwyochrog. Gweithiodd swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru yn agos gyda Chynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE a swyddfeydd y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i'r UE.

Fel enghraifft o faes polisi penodol, cyfrannodd Gwerth Cymru at ymgynghoriadau â Chomisiwn yr UE ar Gyfarwydddebau Caffael newydd yr UE a sicrhodd ddeialog agos â Llywodraeth y DU a mynegodd ein sylwadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau Cymreig ar bolisïau caffael yn cael eu hadlewyrchu. Mae'r Gweinidog Cyllid yn ystyried deddfu yng Nghymru er mwyn sicrhau y caiff polisïau caffael allweddol Llywodraeth Cymru eu mabwysiadu'n ehangach.

Rhaglen Waith 2014

Bydd Gweinidogion Cymru a'u swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, drwy'r mecanweithiau a ddisgrifir, er mwyn hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd

Bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd rhan yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd, fel rhan o ddirprwyaeth y DU, ar faterion sydd o ddiddordeb i Gymru ac yn ceisio dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol.

Adroddiad Blynyddol 2013

Cafodd Llywyddiaeth Cyngor yr UE ei throsglwyddo o Iwerddon i Lithwania fel rhan o'r cylchdro.

Cymerodd Gweinidogion Cymru ran weithredol yng nghyfarfodydd y Cyngor ar faterion a oedd yn bwysig i Gymru. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chynrychioli yng nghyfarfodydd y Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd ar ddiwygio Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd ym Mrwsel ac yn Lwcsembwrg gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd fel rhan o ddirprwyaeth Weinidogol y DU. Mynychodd y Gweinidog gyfarfodydd Cyngor yr Amgylchedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn hefyd.

Cafodd y DU ei chynrychioli gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar gyfer yr eitemau Addysg ac Ieuencid yng nghyfarfod y Cyngor Addysg, Ieuencid, Diwylliant a Chwaraeon ym mis Tachwedd, gan siarad am bolisïau Addysg ac Ieuencid.

Rhaglen Waith 2014

Groeg fydd â Llywyddiaeth yr UE o 1 Ionawr tan 30 Mehefin, cyn ei throsglwyddo i'r Eidal. Mae etholiadau Senedd Ewrop, a gynhelir rhwng 22 a 25 Mai, yn golygu y bydd llawer o waith llywyddiaeth Groeg yn ymwneud â dod i gytundeb terfynol ar bolisiau a deddfwriaeth y senedd sy'n dod i ben.

Bydd Gweinidogion Cymru yn rhan o ddirprwyaeth y DU i gyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion ar gamau pwysig yn y negodiadau ar bob polisi o ddiddordeb.

Senedd Ewrop

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda gydag ASEau Cymru a bydd yn parhau i wneud hynny er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu ag ASEau eraill sy'n dylanwadu ar y meysydd sydd bwysicaf i ni.

Adroddiad Blynyddol 2013

Ym mis Tachwedd, cyd-drefnodd Swyddfa'r UE ddigwyddiad â Kay Swinburne ASE a'r British Council Cymru i lansio adroddiad y British Council ar y gwaith rhagorol ac unigryw sy'n digwydd yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru.

Ceisiodd Llywodraeth Cymru gyfrannu at adroddiad Senedd Ewrop ar ieithoedd dan fygythiad ac amrywiaeth ieithyddol, ar y cyd drwy'r Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) a thrwy gyflwyno diwygiadau a awgrymwyd i ASEau Cymru, yr oedd un ohonynt (Kay Swinburne) yn rapporteur cysgodol.

Rhaglen Waith 2014

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cynnal lefel uchel o ymgysylltiad â'r Senedd. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn dilyn yr etholiadau Seneddol ym mis Mai. Byddwn hefyd yn parhau i nodi cyfleoedd i gynnal ymweliadau Gweinidogol ac un enghraifft o ymgysylltu cynnar yw ymweliad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a Chyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy â'r Senedd yn Strasbourg, a gynhelir ddechrau'r hydref yn ôl pob tebyg.

Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal y cyswllt a'r ddeialog agos â'r Comisiwn drwy Swyddfa'r UE a thrwy swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

Adroddiad Blynyddol 2013

Parhaodd Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu ei chydberthnasau â Chomisiynwyr a swyddogion allweddol.

Mae Gweinidogion Cymru a swyddogion mewn amrywiaeth o feysydd polisi wedi parhau i gynnal deialog reolaidd ag uwch swyddogion y Comisiwn, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac aelodau o Gabinetau'r Comisiynwyr. Mae cyswllt o ddydd i ddydd hefyd rhwng swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn.

Fel y nodir uchod, cafodd y Gweinidog Cyllid ymweliad gan y Comisiynydd László Andor ym mis Chwefror, a chyfarfu'r ddau unwaith eto yn y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth. Mae'r Gweinidog hefyd yn cyfarfod â'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am Bolisi Rhanbarthol, Johannes Hahn, ar 31 Mawrth ac yn ddiweddar,

cyfarfu â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am addysg i drafod rhaglen Erasmus Plus.

Rhaglen Waith 2014

Fel y nodir uchod, cafodd y Gweinidog Cyllid ymweliad gan y Comisiynydd László Andor a ddaeth i Gymru ym mis Chwefror, a chyfarfu'r ddau unwaith eto yn y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth. Mae'r Gweinidog hefyd yn cyfarfod â'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am Bolisi Rhanbarthol, Johannes Hahn, ar 31 Mawrth ac yn ddiweddar, cyfarfu â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am Addysg i drafod rhaglen Erasmus Plus.

Mae rhagor o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer 2014 ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd. Er enghraifft, bydd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am Amaethyddiaeth yn mynd i Sioe Frenhinol Cymru.

Yn ddiweddarach eleni, penodir Coleg newydd o Gomisiynwyr a bydd swyddogion yn ymchwilio i gyfleoedd i Weinidogion Cymru gwrdd â Chomisiynwyr priodol..

Pwyllgor y Rhanbarthau, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, Cydberthnasau â rhanbarthau'r UE ac Aelod-wladwriaethau

Mae Llywodraeth Cymru yn eangfrydig ac yn ymrwymedig i gydweithio ag eraill ar brosiectau trawsghenedlaethol a rhynggranbarthol; a chydweithio ar gynigion polisi'r UE gan fod safbwyntiau ar y cyd yn dwyn mwy o ddylanwad.

Adroddiad Blynyddol 2013

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru y Gymraeg ym Mhwyllgor y Rhanbarthau wrth i Rhodri Glyn Thomas AC siarad mewn cyfarfodydd llawn ar dri achlysur. Swyddog o swyddfa'r UE oedd yr arbenigwr ar gyfer adroddiad Mick Antoni AC i Bwyllgor y Rhanbarthau ar fwy o gydweithredu rhwng Gwasanaethau Cyflogaeth Cyhoeddus Ewrop, a chafodd prif gynigion yr adroddiad hwn eu trafod gan Senedd Ewrop. Cafodd Aelodau o'r ddau Bwyllgor eu briffio gan swyddogion ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys polisi gwledig a'r Cronfeydd Strwythurol.

Ym mis Hydref, llofnododd y Prif Weinidog y Cynllun Gweithredu diwygiedig rhwng Cymru a Llydaw gyda Forough Salami, Is-Lywydd Cyngor Rhanbarthol Llydaw, a oedd yn arwain dirprwyaeth ddiwylliannol o Lydaw i WOMEX (ffair gerddoriaeth y byd) yng Nghaerdydd.

Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg â'r Gweinidog Almaeneg sy'n gyfrifol am hyfforddiant galwedigaethol ar ymylon cyfarfod y Cyngor Addysg ym mis Tachwedd er mwyn trafod polisi prentisiaeth.

Mae rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewrop (CTE), gan gynnwys rhaglen Iwerddon-Cymru, yn cynnig cyfleoedd pwysig i gydweithredu ledled yr UE a chymerodd partneriaid yng Nghymru ran mewn 89 o brosiectau CTE ar gyfer cylch 2007-2013, gan ddenu €41m o arian yr UE i Gymru.

Cadarnhawyd hefyd yn 2013 y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cyfrifoldeb am ddatblygu a rheoli rhaglen Iwerddon/Cymru yn y dyfodol, gydag uned weithredol yng

Nghynulliad Rhanbarth y De a'r Dwyrain yn Iwerddon a fydd yn adeiladu ar y cydweithredu sydd eisoes yn digwydd rhwng Iwerddon a Chymru.

Ym mis Ionawr, cynhaliwyd cynhadledd y Rhwydwaith i Hyrwyddo Amrywiaeth Ieithyddol (NPLD) yng Nghymru ar y pwnc o fanteisio ar botensial technoleg i hyrwyddo ieithoedd llai eu defnydd ac ym mis Chwefror, rhannodd swyddog o swyddfa'r UE lwyfan â dau ASE a chynrychiolydd o lywodraeth Catalonia i drafod dyfodol amrywiaeth ieithyddol yn Ewrop.

Rhaglen Waith 2014

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn aelod gweithgar iawn o'r NPLD, sef yr unig rwydwaith Ewropeaidd sydd â'i ganolfan yng Nghymru. Bydd y rhwydwaith yn lansio ei Fap Ieithoedd Ewropeaidd yn yr hydref ac mae'n datblygu cynllun lobiö ar gyfer y Comisiwn a'r Senedd newydd.

O ganlyniad i ymweliad Syr Deian Hopkin, cynghorydd y Prif Weinidog ar y digwyddiadau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, fel y nodwyd uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn cael ymweliad gan Bennaeth Gweinyddiaeth Materion Tramor Llywodraeth Fflandrys ym mis Mehefin er mwyn gweld a ellir datblygu'r gydberthynas rhwng Cymru a Fflandrys ymhellach.

Disgwylir i ddyraniadau ariannol rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewrop gael eu cadarnhau gan Lywodraeth y DU yn y gwanwyn, gan fod angen negodi'r rhaglenni hyn ag Aelod-wladwriaethau eraill. Mae Cymru yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad y rhaglenni hyn, a disgwyliwn y bydd y buddiannau ariannol i Gymru o leiaf cyfwerth â rhaglenni presennol CTE, sef tua £40 miliwn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Rhaglen Weithredol Iwerddon/Cymru i'w chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn canol mis Medi. Bydd y rhaglen yn cynnwys pwyslais mawr ar Fôr Iwerddon, a bydd y tri chynnig buddsoddi'n seiliedig ar arloesedd, yr amgylchedd ac adnoddau diwylliannol a naturiol.

Arbenigedd yr UE

Byddwn yn parhau i gefnogi secondiadau dethol ac ymlyniadau byrdymor i sefydliadau'r UE fel ffordd o ddatblygu arbenigedd a chodi proffil Cymru yn yr UE. Rydym hefyd yn ceisio annog camau i gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, rhai o fewn y Llywodraeth a'r tu allan iddi, yng ngrwpiau arbenigol yr UE.

Adroddiad Blynyddol 2013

Yn 2013 cefnogodd Llywodraeth Cymru bum secondiad i sefydliadau Ewropeaidd: dau swyddog ar secondiad i'r Comisiwn Ewropeaidd, dau i Gynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE ac un i Gynrychiolaeth Barhaol Lithwania am gyfnod Llywyddiaeth Lithwania o'r UE, a chafodd yr holl swyddogion hyn gyfle i fod yn flaenllaw yn y gwaith o lunio polisiau'r UE. Helpodd presenoldeb Cymreig yn y meysydd pwysig hyn i godi proffil Cymru yn yr UE.

Rhaglen Waith 2014

Yn 2014, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd priodol i swyddogion Llywodraeth Cymru mewn sefydliadau Ewropeaidd lle byddant yn datblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd ac yn helpu i lunio polisiau.